# Blaenoriaethau Trwyddedu ar gyfer Radio Darlledu

**Datganiad**

Cyhoeddwyd ar 14 Medi 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i ofcom.org.uk

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ....................................................................................................3

2. Y cefndir a'r cyd-destun rheoleiddiol ....................................................................6

3. Ymatebion i'n hymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ...................................10

    1. Radio analog a'n dull trwyddedu
    2. Blaenoriaethau radio digidol DAB
    3. Ystyriaethau sbectrwm a thechnegol
    4. Eglurder polisi a fframwaith
    5. Ymatebion y tu allan i gwmpas ein cynigion

## Atodiad

A1. Dyletswyddau a phwerau cyfreithiol ..............................................................44

A2. Asesiadau o'r effaith.......................................................................................46

# 1. Trosolwg

1.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer sector cyfathrebiadau'r DU, gan gynnwys darlledu. Mae gennym amrywiaeth o ddyletswyddau a phwerau sy'n ymwneud â'r sector hwn, gan gynnwys y rheini yn Neddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996, Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006. Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr (a hynny drwy hybu cystadleuaeth lle bo'n briodol). Mae hyn yn cynnwys sicrhau amrywiaeth eang o wasanaethau radio a theledu o ansawdd uchel, sicrhau lluosogrwydd darparwyr, hyrwyddo'r defnydd gorau posibl o sbectrwm ac arfer ein pŵer i roi trwyddedau darlledu radio.

1.2 Ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom gyhoeddi ein *Hymgynghoriad ar Flaenoriaethau Trwyddedu ar gyfer Darlledu Radio* (Ymgynghoriad mis Chwefror 2026), gan nodi dull strategol arfaethedig Ofcom yn y tymor byr i'r tymor canolig o drwyddedu radio darlledu yn y DU.

1.3 Ar ôl i'r rhaglen trwyddedu DAB ar raddfa fach (SSDAB) ddod i ben, fe wnaethom gynnig blaenoriaethu gweithgareddau trwyddedu yn y dyfodol sy'n cefnogi twf ac yn darparu'r manteision gorau posibl i wrandawyr. Roeddem ni eisiau cynnal y gefnogaeth i wasanaethau presennol hefyd a galluogi hyblygrwydd priodol o fewn ein gofynion rheoleiddio. Fe wnaethom ddangos hefyd bod llai o ffocws ar analog newydd a rhai mathau eraill o drwyddedau lle mae cynulleidfaoedd yn gostwng neu lle mae sbectrwm yn gyfyngedig.

1.4 Rydym yn cydnabod bod datblygiadau tymor hwy eraill mewn rheoleiddio darlledu a rhaglenni diwygio ehangach sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth y DU i'w hystyried.

1.5 Roeddem yn cynnig peidio â blaenoriaethu gwaith ar fathau o drwyddedau sydd â chynulleidfaoedd sy'n gostwng, neu ychydig iawn, os o gwbl, o sbectrwm ar gael. Bwriad y blaenoriaethau hyn oedd cefnogi defnydd effeithlon o sbectrwm cyfyngedig a sicrhau'r canlyniadau gorau i gynulleidfaoedd y DU.

1.6 Cawsom 60 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys gorsafoedd radio, darparwyr seilwaith, gweithredwyr amlblecsau, cwmnïau darlledu a chyrff cynrychioliadol, sefydliadau nid-er-elw, un AS ac ymatebwyr unigol.

1.7 Fe wnaethom ystyried yr ymatebion hyn ynghyd â'r sylwadau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r broses ymgynghori ac rydym wedi nodi isod ein penderfyniadau ar ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu tymor byr i dymor ganolig.

1.8 Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Y cefndir a'r cyd-destun rheoleiddiol
- Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom
- Atodiad 1 - Dyletswyddau a phwerau cyfreithiol
- Atodiad 2:
  - Asesiad o'r effaith
  - Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb
  - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Ein penderfyniadau – yn gryno

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid, rydym wedi penderfynu, yn gyffredinol, **gadarnhau ein cynigion gwreiddiol ar gyfer trwyddedu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau trwyddedu canlynol yn y tymore byr i ganolig: .**

a) cyfleoedd newydd ar gyfer amlblecsau SSDAB mewn ardaloedd heb eu gwasanaethu;

b) ceisiadau gan drwyddedeion amlblecs SSDAB presennol i wella neu ymestyn cwmpas eu amlblecs;

c) dull mwy hyblyg, lle bo'n briodol, yn ein cymhwysiad o'r rheol 'nenfwd 40%' ynghylch SSDAB;

d) ystyried ceisiadau ar gyfer darlledu radio cymunedol FM newydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar drwyddedau;

e) ystyried, mewn achosion eithriadol, ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol AM newydd;

f) ceisiadau am adnewyddu ac estyniadau ar gyfer trwyddedau analog masnachol a chymunedol;

g) ceisiadau gan drwyddedeion analog masnachol a chymunedol presennol am newidiadau technegol;

h) cefnogaeth i raglenni trwyddedu parhaus sydd eisoes yn cael eu cynnal; a

i) parhau i ddarparu cefnogaeth barhaus i wasanaethau trwyddedig presennol.

Ar ôl ystyried rhai o'r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol i'n sefyllfa arfaethedig yn yr ymgynghoriad.

a) **Y broses Datgan Diddordeb ar gyfer trwyddedau radio cymunedol FM newydd:** Mewn mân newid i'r cynnig gwreiddiol, rydym wedi penderfynu gofyn yn ffurfiol am Ddatganiadau o Ddiddordeb ar gyfer trwyddedau radio cymunedol FM newydd ochr yn ochr â'r Datganiad hwn, cyn gwahodd ceisiadau. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall lefelau'r diddordeb mewn gwasanaethau radio cymunedol newydd, blaenoriaethu trefn gwahoddiadau ar sail y drefn flaenoriaeth a nodir ym mharagraff 3.41, ac yn caniatáu i ni gynllunio ein hadnoddau i ateb y galw ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill a nodir yn y Datganiad hwn. Yn unol â rowndiau trwyddedu radio cymunedol blaenorol, dim ond os bydd Ofcom wedi cael Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer trwydded mewn ardal benodol y bydd ceisiadau am drwyddedau yn cael eu gwahodd. Os na allwn, am unrhyw reswm, wahodd cais mewn ardal y cawsom Ddatganiad o Ddiddordeb ar ei chyfer, byddwn yn rhoi gwybod i'r atebwyr perthnasol.

b) **Proses Datgan Diddordeb ar gyfer trwyddedau radio cymunedol AM newydd:** Yn gyffredinol, ni fydd Ofcom yn trwyddedu gwasanaethau newydd i'w darlledu ar AM oherwydd ein bod o'r farn y bydd cynulleidfaoedd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn fwy tebygol o gael eu gwasanaethu'n well gan wasanaethau FM neu DAB. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu y gallai fod amgylchiadau eithriadol lle gallai fod yn briodol dyrannu trwydded radio cymunedol AM. Bydd angen i'r parti â diddordeb nodi gwybodaeth ychwanegol yn y broses Datgan Diddordeb sy'n cyfiawnhau'r angen am wasanaeth AM newydd. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn o ran cynaliadwyedd a byddwn yn cynnwys cwestiynau ychwanegol yn y Datganiad o Ddiddordeb i'n galluogi i asesu a oes cynllun

busnes credadwy a galw gan wrandawyr am wasanaeth o'r fath. Credwn y bydd hyn yn ein helpu i asesu'n well a oes tebygolrwydd cryf y bydd y gwasanaeth yn cael ei lansio ac y bydd yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

c) **Hysbysebu amlblecsau DAB lleol newydd:** Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â hyn fel blaenoriaeth trwyddedu. Rydym wedi gwneud y newid hwn oherwydd:

i) y posibilrwydd y bydd lansio amlblecsau DAB Lleol newydd yn ansefydlogi'r farchnad SSDAB gychwynnol;

ii) y dystiolaeth gyfyngedig o'r galw am drwyddedau amlblecs DAB Lleol newydd gan ymatebwyr;

iii) y gwaith sylweddol y byddai ei angen i ddiwygio'r broses drwyddedu ar gyfer amlblecsau DAB Lleol o ystyried y newidiadau sydd eu hangen ar ôl rhoi Deddf Cyfryngau 2024 ar waith; a

iv) Adolygiad Radio Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar ôl ein hymgynghoriad, a allai gynnwys argymhellion sy'n ymwneud â DAB Lleol.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Y cefndir a'r cyd-destun rheoleiddiol

## Trosolwg o drwyddedu darlledu radio

2.1 Fel y trafodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, mae Ofcom ar hyn o bryd yn trwyddedu gwasanaethau radio darlledu ar draws gwasanaethau analog (AM ac FM) a Darlledu Sain Digidol (DAB). Ar gyfer gwasanaethau analog, mae trwyddedau'n cwmpasu'r cynnwys a'r broses o drawsyrru AM/FM, ond ar gyfer gwasanaethau digidol mae Ofcom yn trwyddedu cynnwys y gwasanaethau radio a'r amlblecsau DAB sy'n cludo gwasanaethau radio ar wahân. Mae amlblecsau'n cael eu rhannu'n dri math ar sail lefel eu darpariaeth ddaearyddol - cenedlaethol, lleol ac ar raddfa fach.

2.2 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r gwahanol fathau o drwyddedau[1]:

| **Ardal** | **Trwyddedau** | |
|---|---|---|
| | Analog | Digidol |
| **Cenedlaethol** | Gwasanaethau cenedlaethol AM/FM (AN) | Gwasanaethau radio cenedlaethol (DN)<br>Amlblecsau cenedlaethol (DM) |
| **Lleol a rhanbarthol** | Gwasanaethau masnachol lleol AM/FM (AL)<br>Gwasanaethau cymunedol AM/FM (CR)<br>Gwasanaethau cyfyngedig (RSL, gan gynnwys LRSL) | Gwasanaethau masnachol lleol (DP)<br>Gwasanaethau cymunedol (C-DSP)<br>Amlblecsau lleol (DL)<br>Amlblecsau ar raddfa fach (DS) |

2.2 Rydym hefyd yn rhoi Trwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig (RSLs) ar gyfer digwyddiadau tymor byr ac ardaloedd bach iawn e.e. radio ysbyty. Mae trwyddedau darlledu newydd yn cael eu dyfarnu drwy gymysgedd o brosesau cystadleuol ac anghystadleuol, yn unol â gofynion statudol. Rhaid asesu llawer o geisiadau yn erbyn rhestr o feini prawf statudol fel y nodir mewn deddfwriaeth. Ar ben hynny, rydym yn ystyried newidiadau i drwyddedau presennol a gallwn gymeradwyo ceisiadau am newid technegol, rhoi caniatâd i drosglwyddo trwyddedau, adnewyddu trwyddedau neu eu hymestyn.

2.3 Rydym yn gwneud ein gwaith yn y maes hwn yn unol â gofynion statudol. Mae cofnodion Ofcom yn dangos bod tua 1,000 o orsafoedd wedi'u trwyddedu i ddarlledu ar DAB ledled y DU ar hyn o bryd. Mae cyfanswm o 543 o wasanaethau radio masnachol a chymunedol yn darlledu ar analog hefyd (nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwasanaethau Radio'r BBC). Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i wasanaethau ar-lein yn unig ddal trwydded darlledu.

2.4 Mae SSDAB yn cynnig ffordd gost isel o ddarparu radio digidol i ardaloedd llai, gan alluogi gorsafoedd analog presennol a rhai newydd i ddarlledu ar ddigidol. Ymgynghorodd Ofcom ar ein dull o drwyddedu SSDAB yn 2019/20.[2] Yn dilyn hyn, fe wnaethom flaenoriaethu trwyddedau SSDAB dros wasanaethau analog newydd gan fod hyn yn caniatáu i fwy o wasanaethau gyrraedd mwy o gymunedau nag y gellid eu cyrraedd drwy FM. Ers hynny, nid ydym wedi trwyddedu

[1] Y byrfoddau mewn cromfachau yn y tabl yw'r rhagddodiaid a ddefnyddir gan Ofcom i nodi'r mathau o drwyddedau.
[2] Ofcom, 2020. Datganiad:Trwyddedu DAB ar raddfa fach – sut bydd Ofcom yn defnyddio ei swyddogaethau newydd

unrhyw wasanaethau radio cymunedol analog FM newydd yn y DU (ac eithrio mewn un achos eithriadol).[3]

# Esblygiad radio darlledu yn y DU

## Cwblhau'r gwaith o gyflwyno SSDAB

2.5 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae ein ffocws trwyddedu craidd wedi bod ar ddyfarnu trwyddedau amlblecs SSDAB. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cwblhau wyth rownd o drwyddedu ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Daeth y rownd olaf i ben ym mis Mehefin 2026.[4] Fel rhan o'r rhaglen drwyddedu, roeddem hefyd wedi ail-hysbysebu ardaloedd lle daeth trwyddedau ar gael oherwydd methiant i lansio, yn ogystal ag ardaloedd nad oeddent wedi denu unrhyw geisiadau o'r blaen.

2.6 Hyd yma, rydym wedi dyfarnu 157 o drwyddedau SSDAB (ac eithrio'r rheini a gafodd eu dirymu wedyn am fethu â lansio), ac mae 112 o'r amlblecsau bellach yn weithredol, gan gludo amrywiaeth eang o wasanaethau radio C-DSP a DSP.[5]

2.7 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, mae'r rhaglen trwyddedu SSDAB bresennol bellach wedi dod i ben. Rydym nawr yn ystyried ein blaenoriaethau strategol ar gyfer trwyddedu darlledu radio dros y tymor byr i'r tymor canolig. Rydym o'r farn y bydd nifer o ffactorau sy'n dod i'r amlwg yn effeithio ar ein dull o drwyddedu radio yn y dyfodol, ac rydym wedi edrych ar oblygiadau'r rhain wrth ddatblygu ein strategaeth.

## Tueddiadau cynulleidfaoedd

2.8 Mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwrando ar y radio yn newid. Er bod radio yn dal yn boblogaidd ac yn parhau i chwarae rhan bwysig ledled y DU, mae ei gynulleidfa'n gwyro tuag at ddemograffeg hŷn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r tueddiadau hyn yn amrywio yn ôl math o orsaf, darlledwr a brand.

2.9 Mae adroddiad Ofcom yn 2025, *Audio Listening in the UK*, yn amlinellu'r ymchwil ddiweddaraf i arferion gwrando ar sain. Ar gyfer cynulleidfaoedd 55 oed a hŷn, radio cerddoriaeth yw'r prif fath o sain sy'n cael ei ddefnyddio bob wythnos (64%), radio llafar yw'r trydydd mwyaf poblogaidd ar gyfer yr un grŵp oedran (37%), ac mae grwpiau oedran iau yn defnyddio cymysgedd o wasanaethau cerddoriaeth ar-lein a radio cerddoriaeth.[6]

2.10 Yn ôl RAJAR (corff y diwydiant sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio yn y DU), yn ail chwarter 2026, roedd 51.1 miliwn o oedolion neu 87% o oedolion (15 oed a hŷn) yn gwrando ar y radio bob wythnos, gyda gwrandawyr yn treulio 20.3 awr ar gyfartaledd yn gwrando ar radio byw bob wythnos.[7]

2.11 DAB yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf o hyd i wrando ar y radio, gan gyfrif am 43% o'r defnydd. Mae AM/FM yn dal yn sylweddol gyda chwarter y gwrandawyr yn troi at lwyfannau analog.

2.12 Fel y nodwyd yn adroddiad diweddaraf RAJAR, radio masnachol sy'n dal i gynnal y rhan fwyaf o'r holl oriau gwrando ar y radio, gyda'r farchnad yn dal yn gadarn yn wyneb mwy o gystadleuaeth gan wasanaethau ffrydio a sain eraill.[8] Yn gyffredinol, mae tua thri chwarter y gwrando ar y

[3] Mae canlyniad y rownd hon o drwyddedau ar gael ar wefan Ofcom
[4] Ofcom, 2026. Llwyddiant cyflwyno DAB ar raddfa fach yn genedlaethol.
[5] Ofcom, 2024. Ceisiadau a dyfarniadau amlblecs ar raddfa fach
[6] Ofcom, 2025. Audio Listening in the UK 2025. Sylfaen: Pob ymatebydd (3,484). Mae'r canrannau'n cyfeirio at gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog pob math o sain ym mhob grŵp oedran.
[7] RAJAR, 2026. Sleid 1.
[8] RAJAR, 2026. Sleid 1.

radio bellach yn digwydd drwy lwyfannau digidol, gan gynnwys DAB yn ogystal â chynnydd yn y defnydd o seinyddion clyfar, gwefannau ac apiau.[9] Mae radio masnachol hefyd yn ystyried sut mae'n ymateb i heriau ehangach, fel yr effeithiau y gallai'r sector eu hwynebu yn dilyn canlyniad papur gwyrdd Llywodraeth y DU ar y cyfeiriad strategol ar gyfer cyfryngau'r DU.[10] Cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd ei Hadolygiad Radio ym mis Chwefror 2026, gan ganolbwyntio ar senarios yn y dyfodol ar gyfer defnyddio cynnwys radio a sain yn y DU ac effaith y senarios hyn ar strategaethau dosbarthu nawr ac yn y dyfodol. Disgwylir argymhellion yr adolygiad erbyn diwedd 2026.[11]

2.13 Mae'r sector radio cymunedol yn dal yn rhan bwysig a sefydledig o dirwedd darlledu'r DU, gan ddarparu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol a budd cymdeithasol i'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu. Mae'r sector wedi parhau i dyfu ac esblygu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chymorth cyflwyno amlblecsau DAB ar raddfa fach, sydd wedi ehangu cyfleoedd ar gyfer darlledu digidol, tra bo gwasanaethau FM yn dal yn bwysig i lawer o orsafoedd a'u cynulleidfaoedd. Mae newidiadau rheoleiddiol a deddfwriaethol diweddar wedi ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i'r sector drwy symleiddio'r Prif Ymrwymiadau, llacio'r rhan fwyaf o gyfyngiadau cyllido a chyfleoedd i ymestyn trwyddedau am ddeng mlynedd arall. Ar yr un pryd, mae rhanddeiliaid yn parhau i dynnu sylw at yr heriau parhaus sy'n ymwneud â chostau cludiant digidol, darpariaeth a phwysigrwydd darlledu analog.

## Argaeledd sbectrwm

2.14 Ofcom sy'n gyfrifol am reoli sbectrwm amledd radio'r DU i sicrhau bod yr adnodd cenedlaethol cyfyngedig hwn yn diwallu anghenion amrywiaeth eang o wasanaethau, rhaglenni a defnyddwyr.

2.15 Mae'r galw a'r defnydd o sbectrwm yn parhau i gynyddu, sy'n golygu bod faint o sbectrwm clir sydd ar gael wedi lleihau'n gyffredinol dros amser ac felly mae'n gyfyngedig iawn mewn rhai lleoliadau. Yn achos radio darlledu, nid oes mwy o gapasiti ar gyfer gwasanaethau radio FM cenedlaethol ychwanegol, nac ar gyfer gwasanaethau ardal eang yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd mwy lleol yn bodoli i ganiatáu i wasanaethau ffitio i mewn i 'fylchau' rhwng gorsafoedd presennol heb risg o achosi ymyriant.

2.16 Mae gwasanaethau DAB yn wynebu heriau tebyg o ran sbectrwm, heb le ar gael ar gyfer amlblecsau DAB cenedlaethol ychwanegol a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer amlblecsau lleol newydd. Mae rhywfaint o sbectrwm ar gael ar gyfer SSDAB mewn ardaloedd lle nad ydym wedi hysbysebu amlblecsau o'r blaen. Efallai y bydd rhai cyfleoedd pellach yn bodoli lle na wnaed cais am drwyddedau, lle nad ydynt wedi symud ymlaen i gael eu lansio, neu lle roeddent yn darparu llai o ddarpariaeth na'r disgwyl pan gawsant eu hysbysebu'n wreiddiol.

---

[9] RAJAR, 2026. Sleid 1.
[10] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2026. https://www.gov.uk/government/consultations/watch-this-space-a-new-strategic-direction-for-uk-media-green-paper-and-public-consultation/watch-this-space-a-new-strategic-direction-for-uk-media-green-paper-and-public-consultation .
[11] Senedd y DU, 2026. Datganiadau ysgrifenedig - Cwestiynau, atebion a datganiadau ysgrifenedig - Senedd y DU.

## Ein strategaeth arfaethedig

2.17 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, rydym wedi ystyried y ffactorau cyd-destunol uchod, ein gwaith trwyddedu darlledu presennol ac adnoddau a chapasiti ein timau trwyddedu a pheirianneg sbectrwm.

2.18 Fel rhan o’n dadansoddiad, rydym hefyd wedi ystyried yn drylwyr effeithiau ein penderfyniadau ar randdeiliaid yn y diwydiant, gan gynnwys drwy’r ymatebion a ddaeth i law fel rhan o’n hymgynghoriad. Wrth gwblhau ein blaenoriaethau, rydym wedi ceisio lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl cymaint ag y bo modd ar yr un pryd â sicrhau’r manteision gorau posibl i gynulleidfaoedd.

2.19 Rydym hefyd wedi ystyried ein dyletswyddau a’n pwerau mewn perthynas â thrwyddedu darlledu radio, gan gynnwys y gofyniad i sicrhau’r defnydd gorau posibl o sbectrwm ac effaith ein penderfyniadau, yn Atodiadau 1 a 2.

2.20 Gyda’i gilydd, mae’r ystyriaethau hyn wedi ein galluogi i gwblhau ein blaenoriaethau tymor byr i dymor canolig ar gyfer trwyddedu radio darlledu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd gan ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae ein penderfyniadau terfynol wedi’u nodi yn Adran 3.

# 3. Ymatebion i'n hymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom

3.1 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom amlinellu ein blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer trwyddedu darlledu yn y tymor byr i'r tymor canolig. Fel y nodir uchod, cawsom 67 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'r fersiynau anghyfrinachol o'u hymatebion wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad hwn.

3.2 Roedd ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026 yn nodi nifer o gwestiynau cyffredinol ar flaenoriaethu ein gweithgarwch trwyddedu darlledu. O ganlyniad, roedd yr ymatebion yr un mor eang. Felly, rydym wedi strwythuro ein hymateb a'n penderfyniadau yn ôl thema, yn hytrach nag yn ôl cwestiwn ymgynghori, er mwyn helpu i egluro ein penderfyniadau.

3.3 Ym mhob adran isod, rydym yn crynhoi safbwyntiau rhanddeiliaid fesul thema ac yn nodi ein hymatebion a'n penderfyniadau terfynol. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rydym wedi ystyried pob ymateb a'n dyletswyddau statudol perthnasol fel y nodir yn Atodiad 1.

## Radio analog a'n dull trwyddedu

### Amrywiaeth llwyfannau/Tirwedd darlledu

#### Yr hyn a ddywedon ni

3.4 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom amlinellu'r mathau o wasanaethau radio darlledu sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom yn y DU, gan gynnwys gwasanaethau analog (FM ac AM), DAB ac RSLs.[12] Fe wnaethom hefyd amlinellu'r dirwedd radio darlledu sy'n datblygu, gan nodi'r ehangu o wasanaethau analog a masnachol traddodiadol i wasanaethau ar-lein yn unig, yn ogystal â'r defnydd cynyddol o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio drwy raglenni fel BBC Sounds a Radioplayer. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o lwyfannau y mae modd cael gafael ar gynnwys radio drwyddynt ar hyn o bryd.

3.5 Fe wnaethom dynnu sylw at dwf sylweddol y sector radio cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau'n gweithredu ar FM, ochr yn ochr â nifer cynyddol yn darlledu ar DAB.

3.6 Nododd Ofcom y gostyngiad mewn gorsafoedd radio AM a gwrando cyffredinol. Fe wnaethom gydnabod bod FM yn perfformio'n well nag AM ond hefyd bod disgwyl i ffigurau gwrando ostwng dros y tymor hwy ac mae DAB yn cyd-fynd yn agosach â datblygiadau presennol ac yn y dyfodol o ran gwrando.

#### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.7 Roedd cryn dipyn o ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad o'r dirwedd trwyddedu darlledu,[13] yn enwedig yng nghyd-destun radio digidol yn cyd-fynd â newidiadau mewn arferion gwrando,[14] gostyngiad mewn AM[15] a chynnydd yn y ffordd mae modd cael gafael ar

[12] Ofcom, 2026. Ymgynghoriad ar ddull strategol arfaethedig Ofcom o drwyddedu radio darlledu.
[13] Rutford and Stamford Sound CIC, t.1-2; Muxnet Ltd, t.1; Muxnet UK, t.2; Radiocentre Ltd, t.3; MuxCo Ltd, t.1; 10 Radio, t.2; Phonic FM/ ExeDab, t.3; Bauer Media Audio UK, t.3.
[14] Bristol Digital Radio CIC, t.1
[15] Lawrence Galkoff Associates Ltd, t.7

gynnwys sain yn sgil ehangu gwasanaethau DAB a hwylustod gwrando ar bodlediadau, gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth a chynnwys ar-lein arall.[16]

3.8 Roedd cryn dipyn o ymatebwyr o blaid parhau i ddarparu amrywiaeth o lwyfannau (gan gynnwys DAB, FM a ffrydio ar-lein) er mwyn sicrhau'r mynediad mwyaf posibl i gynulleidfaoedd.[17] Roeddent yn nodi, mewn rhai ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, neu lle mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig, y gall gwrandawyr ddibynnu ar wasanaethau FM ac AM oherwydd diffyg mynediad at DAB. Yn y cyd-destun hwn, ystyriwyd bod cynnal nifer o lwyfannau darparu yn angenrheidiol er mwyn sicrhau argaeledd eang.[18]

3.9 Pwysleisiodd eraill na ddylai "darpariaeth ddigonol" ar gyfer cynulleidfaoedd gael ei hasesu yn ôl nifer y llwyfannau sydd ar gael yn unig.[19] Yn hytrach, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod ansawdd, dibynadwyedd a gwerth cyffredinol gwasanaethau radio i gymunedau lleol yn bwysicach na nifer y llwyfannau neu'r dechnoleg sylfaenol. Awgrymodd un ymatebydd, "Er ei bod yn dda cynyddu nifer y gwasanaethau'n gyffredinol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n cael eu gwasanaethu'n wael, ansawdd sy'n bwysig yn hytrach na nifer."[20]

3.10 Nododd nifer bach o ymatebwyr hefyd, er bod dadansoddiad Ofcom o fathau o drwyddedau (a nodir yn Atodiad A1 i Ymgynghoriad mis Chwefror 2026) yn gywir ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig, bod yn "rhaid gwneud darpariaeth sy'n addasu wrth i dechnoleg newydd newid ymhellach y ffordd mae darlledu'n cael ei ddarparu".[21] Nododd nifer o ymatebwyr y dylai Ofcom sicrhau bod ei ddull rheoleiddio yn cyd-fynd â datblygiadau, ✂.[22] Awgrymodd Bauer Media Audio UK y dylai Ofcom ddarparu asesiad parhaus o'r effaith gronnus ar y farchnad, yn enwedig ar amlblecsau lleol a rhanbarthol presennol.[23]

3.11 Mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryderon ynghylch ✂[24] ✂[25]

## Ein hymateb

3.12 Mae Ofcom yn nodi'r cytundeb cyffredinol â'i asesiad o'r dirwedd darlledu bresennol a rôl DAB fel llwyfan sy'n cyd-fynd ag arferion gwrando sy'n esblygu.

3.13 Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd cynnal cymysgedd o lwyfannau darparu, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â darpariaeth gyfyngedig neu mewn amgylchiadau lle gallai mynediad at wasanaethau digidol fod yn gyfyngedig. Nodwn fod ein penderfyniad yn cynnwys parhau i ddarparu cymorth i wasanaethau trwyddedig presennol, ar draws pob llwyfan.

3.14 Er mai ein safbwynt cyffredinol o hyd yw bod y cyfeiriad hirdymor yn symud tuag at lwyfannau digidol, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod unrhyw gynigion yn y dyfodol yn parhau i ystyried darpariaeth, gwydnwch ac anghenion cynulleidfaoedd.

---

[16] J Peter Wilson, t.3.
[17] SWU.FM, tt.2-3; Local DAB Association, t.4; Trossachs Radio CIC, t.1; Coast Community Radio and Media CIC, tt.4-5.
[18] Trossachs Radio CIC, t.2; SWU.FM, t.2; Alicia Kearns AS, t2; Coast Community Radio and Media CIC, tt.2 a 5.
[19] Affinity Media NE CIC, t.3.
[20] Lucinda Guy, t1.
[21] Phonic FM/ ExeDab, t.2.
[22] ✂
[23] Bauer Media Audio UK, t1.
[24] ✂
[25] ✂

3.15 Felly, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau mewn technoleg, ymddygiad gwrando a mynediad a byddwn yn parhau i adolygu ein dull rheoleiddio i sicrhau ei fod yn dal yn briodol ac yn gymesur.

## FM Cymunedol

### Yr hyn a ddywedon ni

3.16 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, roeddem yn cynnig blaenoriaethu ceisiadau i adnewyddu ac ymestyn trwyddedau analog cymunedol yn ogystal â cheisiadau gan drwyddedeion analog cymunedol presennol am newidiadau technegol, gan gynnwys gwella ac ymestyn darpariaeth.

3.17 Fe wnaethom hefyd egluro mai radio cymunedol sy'n cyfrif am y nifer mwyaf o drwyddedau FM unigol. Mae statud yn mynnu bod y gwasanaethau hyn yn darparu manteision pendant i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu drwy ddarparu budd cymdeithasol ac felly, maent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o roi llais i gymunedau lleol ledled y DU.[26] Fodd bynnag, mae argaeledd y gwasanaethau hyn ar DAB, mewn rhai achosion, yn her oherwydd diffyg amlblecs SSDAB lleol neu oherwydd nad yw cludo ar amlblecsau masnachol lleol yn ymarferol yn ariannol. Fe wnaethom hefyd nodi bod ardaloedd gwledig hefyd yn llai tebygol o gael cysylltedd band eang cyflym.

3.18 O ystyried yr heriau technolegol ac ariannol, yn enwedig mewn perthynas â DAB mewn ardaloedd gwledig ac er gwaethaf y newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd, mae'n amlwg bod gwasanaethau analog yn dal i gael eu gwerthfawrogi gan rai grwpiau o'r boblogaeth a chymunedau. Felly, fe wnaethom gynnig y canlynol yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026:

a) y byddem yn ystyried gwahodd ceisiadau am drwyddedau FM radio cymunedol newydd; ac
b) y byddem yn parhau i gefnogi trwyddedeion radio cymunedol analog presennol drwy barhau i ystyried ceisiadau ar gyfer:
   i. ymestyn "hyd" trwyddedau; a
   ii. newidiadau technegol gan gynnwys gwella darpariaeth ac ymestyn gwasanaethau er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well yn eu hardal leol.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.19 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn croesawu cynigion Ofcom,[27] yn enwedig ystyriaethau ar gyfer rownd newydd o drwyddedu radio cymunedol FM,[28] [✂].[29] Cyfeiriodd ymatebwyr at ardaloedd gwledig,[30] trefi/✂[31] gyda darpariaeth symudol neu DAB anghyson a chymunedau sy'n dibynnu ar setiau radio hŷn neu gerbydau hŷn fel enghreifftiau lle gallai FM barhau i fod o fudd amlwg i'r gynulleidfa.

3.20 Cafwyd safbwyntiau cymysg mewn perthynas â gwelliannau ac estyniadau i wasanaethau analog cymunedol. Roedd rhai'n cytuno â chefnogi gwasanaethau yn hyn o beth, gan nodi ei bod yn

---

[26] Ofcom, 2026. Ymgynghoriad ar ddull strategol arfaethedig Ofcom o drwyddedu radio darlledu t.9.
[27] Boom Radio Ltd, t.6; ✂;✂; Phonic FM/ExeDab, t.2; Red Army Group Ltd, t.1; MuxCo, t.1; Muxnet, t.1; Dee Radio Group, t.1; atodiad Local DAB Association, t.1 ; MuxNet, t.1; Tyneside Community Digital, Northumberland Community Digital CIC, Durham Digital, t.1; Station House Media Unit, t.1; 10 Radio t1; Bauer Media, t.1; Paul Groves, t.1; Caithness FM, t.2; East London Radio, t.2; U.DAB, t.1; Better Media, t.1; ✂
[28] ✂; Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol, tt.1, 5; ✂; Lawrence Galkoff Associates, t.1; Rutland and Stamford Sound CIC, t.1; Hot Radio, t.1; Rhwydwaith Cyfryngau Cymunedol y DU (UKCRN), t.1; Soundz FM, t.3; Radio Utsav, t.1; Alicia Kearns AS, t.1; Coast Community Radio and Media CIC, t.2; SWU.FM, t.2; Peter Wilson, t.2; ✂
[29] ✂
[30] Alicia Kearns AS, t.1; Coast Community Radio and Media CIC, t.2.
[31] Soundz FM, t.2.

bwysig bod "darpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn aros yr un fath o leiaf ond yn gwella lle bo hynny'n bosibl"[32], a ✂[33] Dywedodd eraill na ddylid blaenoriaethu gwelliannau ac estyniadau mewn ardaloedd sydd â darpariaeth DAB gref,[34] yn enwedig "o ystyried bod perthnasedd llwyfannau analog yn dirywio o safbwynt cynulleidfa."[35] Dywedodd Nation Broadcasting, "nid ydym yn credu y dylid caniatáu i wasanaethau cymunedol presennol ehangu cymaint fel bod eu hardal darlledu yn adlewyrchu'n ystyrlon ardaloedd trwyddedig gwasanaethau masnachol".[36]

3.21 Tynnwyd sylw at "y ffaith ei bod yn berthnasol edrych ar gyfleoedd i gyflwyno, ailddosbarthu a/neu gynyddu dyraniadau yn yr ardal hon wrth i amleddau fynd yn fwyfwy prysur".[37] Yn y cyfamser, ✂[38] ✂[39]

3.22 Cynigiwyd amrywiaeth o resymau i gefnogi blaenoriaethau mewn perthynas ag FM Cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys y manteision o ran budd cymdeithasol,[40] a ✂.[41] Dywedodd un rhanddeiliad fod cefnogaeth barhaus i FM yn hanfodol i'w hirhoedledd a chynaliadwyedd gwasanaethau presennol.[42]

3.23 Eglurodd rhai rhanddeiliaid y bydd argaeledd trwyddedau newydd o fudd i gymunedau mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan SSDAB a lle mae topograffeg leol yn cyfyngu ar y ddarpariaeth. [43] Dywedodd Trossachs Radio CIC, "Mae'n braf iawn clywed Ofcom yn awyddus iawn i helpu sefydliadau nid-er-elw fel ni gyda'r gobaith o gyrraedd ein cynulleidfaoedd targed gyda gwybodaeth leol werthfawr."[44] Cafodd heriau mewn perthynas â mynediad digidol eu hadleisio hefyd gan ymatebwyr fel SWU a bwysleisiodd "bwysigrwydd parhaus cynnal llwybr hyfyw ar gyfer trwyddedu FM cymunedol" gan ei fod "yn parhau i fod yn bwynt mynediad hanfodol i gynulleidfaoedd lleol, yn enwedig y rheini nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan lwyfannau digidol".[45]

3.24 Awgrymodd nifer o randdeiliaid ymhellach fod angen cymorth i wasanaethu lleiafrifoedd ieithyddol yn well ac y dylai trwyddedau ystyried darpariaeth ieithoedd lleiafrifol.[46] Awgrymodd Radio Utsav y dylai Ofcom ymgysylltu ymhellach â RAJAR i "atal achosion o dangyfrif gwrandawyr ieithoedd lleiafrifol" gan nodi ymhellach fod cynulleidfaoedd hŷn yn dibynnu ar FM at ddibenion hygyrchedd a fforddiadwyedd. Yn fwy cyffredinol, mynegodd Radio Utsav gefnogaeth i drwyddedu radio cymunedol ychwanegol ar FM, gan nodi nad yw darpariaeth amlblecs SSDAB bob amser yn cyd-fynd â'r ardaloedd daearyddol lle mae'r cymunedau o ieithoedd lleiafrifol wedi'u crynhoi.[47]

---

[32] 10 Radio, t.1.
[33] ✂
[34] Lawrence Gallkoff Associates Ltd, t.1.
[35] Hot Radio, t.2.
[36] Nation Broadcasting, t.1.
[37] Radio Sangam, t.1.
[38] ✂
[39] DAEPAC; p.1.
[40] Soundz FM, t.3; Kyle Scott, t.2.
[41] ✂
[42] Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU, t.3.
[43] ✂; Trossachs Radio CIC, t.1; Coast Community Radio and Media CIC, t.1;
[44] Trossachs Radio CIC, t.2.
[45] SWU.FM., t.1.
[46] ✂; Radio Utsav, t.1.
[47] Radio Utsav, t.3.

3.25 Awgrymwyd y dylid ✂[48] ac awgrymodd rhanddeiliaid eraill ddull tebyg hefyd.[49] Fodd bynnag, roedd un rhanddeiliad yn teimlo na ddylid caniatáu ailymgeisio am drwydded FM wedi'i hildio heb benderfynu'n gyntaf a ddylid cludo'n gynaliadwy ar amlblecs ar raddfa fach i hyrwyddo ei sefydlogrwydd masnachol.[50] Roedd awgrymiadau ychwanegol ar gyfer blaenoriaethu yn cynnwys meysydd lle mae'r galw am wasanaethau newydd wedi cael ei fynegi,[51] lle nad yw'r galw hwnnw'n cael ei wasanaethu felly mae angen darpariaeth leol;[52] neu'n dactegol lle nad yw'r opsiwn digidol yn ymarferol.[53] Roedd gwrthwynebiad hefyd i flaenoriaethu ardaloedd gwledig[54] a'r rheini sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan wasanaethau ar raddfa fach.[55]

3.26 Gofynnodd Radiocentre i Ofcom ystyried effaith gwasanaethau radio cymunedol sy'n gorgyffwrdd sy'n cystadlu â gwasanaethau radio masnachol bach, gan ddweud y dylai Ofcom "barhau i ystyried adroddiad a gomisiynwyd gan Radiocentre yn 2018 a oedd yn tynnu sylw at sut gellir rhoi rhai o'r gorsafoedd radio masnachol lleiaf mewn perygl go iawn pan fydd gorsafoedd cymunedol llai cydwybodol, neu sy'n rhy gystadleuol, yn cael eu lansio yn eu hardaloedd".[56]

3.27 Fodd bynnag, er ein bod wedi cael cefnogaeth aruthrol i wahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol FM newydd fel y nodir ym mharagraff 3.19, cawsom hefyd amrywiaeth o awgrymiadau gan randdeiliaid ynghylch y broses y byddai Ofcom yn ei dilyn. Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu polisi ar gyfer dirymu gwasanaethau sydd wedi bod oddi ar yr awyr er mwyn gallu eu hysbysebu eto;[57] trwyddedu ad-hoc ac ar-alw yn hytrach na rowndiau ymgeisio;[58] asesu sbectrwm[59] ✂[60] a thryloywder mewn perthynas ag amserlenni, meini prawf a disgwyliadau rheoleiddio.[61] Awgrymwyd ymhellach: y dylai trwyddedu a rheoleiddio gwasanaethau'n barhaus fod yn ymatebol i "ddatblygiadau technolegol a'r ffordd mae darlledu'n cael ei ddarparu"[62] a ✂[63] dylai unrhyw Wahoddiad i Ymgeisio alluogi ardaloedd trwyddedig i fod yn fwy na 5km i gynnwys ardaloedd trefol;[64] a dylid ystyried goblygiadau ariannol ceisiadau am newid technegol ar wasanaethau radio cymunedol.[65]

3.28 Er ei fod yn cefnogi safbwynt cyffredinol Ofcom, galwodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol hefyd am fwy o ymyriadau rheoleiddio i gefnogi darparwyr gwasanaethau radio cymunedol yn wyneb heriau sylweddol. Er enghraifft, roeddent yn galw ar Ofcom i wneud y canlynol: ymyrryd o ran y prisiau sy'n cael eu codi ar weithredwyr radio cymunedol gan y Performing Rights Society (PRS)/Phonographic Performance Limited (PPL); cynnig mwy o gyfleoedd i RSLs ar FM brofi'r farchnad; symleiddio prosesau trwyddedu; a darparu mwy o sicrwydd a chymorth ariannol i'r sector (a ategwyd hefyd gan Radio Sangam). Roedd

---

[48] ✂
[49] Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU, t.2; ✂; Better Media, tt.6-7; Radio Caroline, t.1
[50] Leicester Digital Partnership CIC, t.8.
[51] ✂; Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU, t.2; Affinity Media CIC, t.8.
[52] Affinity Media NE CIC, t.8.
[53] Muxnet UK, t.2; MuxCo, t.1.
[54] Maxxwave, t.7.
[55] Lawrence Galkoff Associates Ltd, t.1; Hot Radio, t.1.
[56] Radiocentre Ltd, t.2.
[57] ✂; Maxxwave Ltd, Atodiad; Better Media, t.8.
[58] Lucinda Guy, t.1; Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU, t.2; Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol, t.4; Better Media, t.1.
[59] Maxxwave Ltd, Atodiad; Better Media, t.3; Leicester Digital Partnership CIC, t.10;
[60] ✂; ✂
[61] Affinity Media CIC, t.2; Maxxwave Ltd, Atodiad; Better Media, t1; Radio Utsav, t.5; Kyle Scott, t.1;
[62] Phonic FM/ ExeDab, t.1.
[63] ✂
[64] ✂
[65] 10 Radio, t.1.

meysydd ffocws ychwanegol a dulliau eraill a gynigiwyd gan ymatebwyr eraill yn cynnwys ✂[66] a chomisiynu ymchwil annibynnol i wrandawyr[67] a beth mae 'cymuned' yn ei olygu.[68]

3.29 ✂[69]

3.30 ✂[70]

3.31 Cododd rhai ymatebwyr faterion yn ymwneud â dull Ofcom o drwyddedu RSLs. Awgrymodd Infocus Digital Media Ltd, ar ran amrywiaeth o sefydliadau, ac unigolyn mai dim ond mewn ardaloedd lle nad oes amlblecs SSDAB ar gael y dylid cyhoeddi RSLs ar FM.[71] Dadleuodd yr unigolyn fod RSLs ar FM yn ddefnydd aneffeithlon iawn o sbectrwm ac y gallai dod â nhw i ben olygu bod mwy o sbectrwm ar gael ar gyfer FM cymunedol. Awgrymodd Infocus Digital Media Ltd hefyd y byddai cyfyngu ar drwyddedu RSL mewn ardaloedd a wasanaethir gan SSDAB yn cefnogi cynaliadwyedd SSDAB. Ar y llaw arall, nodwyd yn yr ymatebion i arolwg y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol y dylid cynnig mwy o RSLs i ganiatáu i orsafoedd radio cymunedol brofi'r farchnad.[72]

## Ein hymateb

3.32 Rydym yn cydnabod cryfder diddordeb rhanddeiliaid mewn trwyddedu radio cymunedol FM newydd, gan nodi pwysigrwydd radio cymunedol a'r amrywiaeth o fanteision y mae'r gwasanaethau hyn yn eu cynnig i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ar draws ardaloedd daearyddol, grwpiau diwylliannol a grwpiau ieithoedd lleiafrifol ac mewn cymunedau gwledig. Rydym hefyd yn cydnabod, i rai cymunedau, mai FM yw'r ffordd symlaf a mwyaf dibynadwy o hyd o gael gwasanaeth lleol, yn enwedig lle mae darpariaeth DAB, symudol neu fand eang yn gyfyngedig neu lle mae gwrandawyr yn parhau i ddefnyddio setiau radio FM mewn cartrefi a cherbydau. Rydym felly wedi dod i'r casgliad bod cwblhau rownd arall o drwyddedu radio cymunedol FM yn debygol o fod o fudd sylweddol i gynulleidfaoedd.

3.33 Roedd cynnig Ofcom i gwblhau mwy o drwyddedu radio cymunedol FM yn cael ei gefnogi gan y mwyafrif helaeth o randdeiliaid a oedd wedi ymgysylltu â'r cwestiwn penodol hwn yn yr ymgynghoriad.

3.34 Rydym yn ymwybodol o'r ymatebion a oedd yn galw ar Ofcom i osgoi trin FM fel hen lwyfan ar gyfer radio cymunedol ac i gydnabod bod patrymau gwrando lleol yn gallu bod yn wahanol i dueddiadau gwrando cenedlaethol. Rydym hefyd yn cydnabod y rôl y mae darpariaeth ieithoedd lleiafrifol a alluogir gan drwyddedu FM yn ei chwarae o ran cefnogi cymunedau i gael gafael ar ddarlledu radio yn eu dewis iaith a manteision y ddarpariaeth hon ar gyfer cydlyniant cymdeithasol.

3.35 O ganlyniad, rydym yn bwriadu parhau â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad a byddwn yn cwblhau proses trwyddedu radio cymunedol FM o fewn ein blaenoriaethau tymor byr i dymor canolig.

3.36 Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddarparwyd, rydym wedi penderfynu, yn hytrach na bwrw ymlaen i wahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol FM ochr yn ochr â'r Datganiad hwn fel y nodir yn ein hymgynghoriad, y byddwn yn hytrach yn cyhoeddi galwad am Ddatganiadau o Ddiddordeb ffurfiol ochr yn ochr â'r Datganiad hwn i ganiatáu i randdeiliaid ddangos eu

---

[66] Maxxwave t.11
[67] Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU, t.4.
[68] Radio Sangam, t.2
[69] ✂
[70] ✂
[71] Infocus Digital Media Ltd, t.1; Yr Athro Paul Groves, t.1.
[72] Atodiadau Cyfrinachol y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, t.8.

diddordeb mewn gwneud cais am drwydded radio cymunedol FM cyn gwahodd ceisiadau. Fel gyda rowndiau trwyddedu radio cymunedol blaenorol, dim ond os bydd Ofcom wedi cael Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer trwydded yn yr ardal honno y bydd ceisiadau am drwyddedau yn cael eu gwahodd.

3.37 Bydd y broses Datgan Diddordeb yn galluogi Ofcom i fesur faint o alw sydd am drwyddedau radio cymunedol FM, manteision i'r gynulleidfa yn sgil blaenoriaethu gwahodd ceisiadau mewn ardaloedd penodol ac yn caniatáu i ni gynllunio ein hadnoddau a'r broses wahodd i sicrhau ein bod yn gallu ateb y galw'n briodol ochr yn ochr â'n blaenoriaethau eraill a nodir yn y Datganiad hwn.

3.38 Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw ddadansoddiad technegol sy'n canolbwyntio ar y sbectrwm sydd ar gael yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Er mwyn i Ofcom allu rheoli ei adnoddau mor effeithlon â phosibl ac nid gwastraffu adnoddau drwy gynnal dadansoddiad ar gyfer ardaloedd lle nad oes ceisiadau wedi dod i law, dim ond ar ôl i ni gael y ceisiadau ffurfiol yn dilyn y Gwahoddiad i Ymgeisio[73] i benderfynu a oes amledd addas yn bodoli y bydd dadansoddiad technegol yn cael ei gwblhau.

3.39 Os bydd Ofcom yn penderfynu gwahodd cais am drwydded FM ar ôl derbyn Datganiad o Ddiddordeb, nid yw'n gwarantu'n awtomatig y bydd trwydded yn cael ei rhoi; fel y nodwyd uchod, bydd angen i Ofcom bennu o hyd a oes amledd addas yn bodoli ac asesu'r cais llawn yn erbyn y meini prawf statudol ar gyfer trwyddedau radio cymunedol fel y nodir yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2025 a deddfwriaeth berthnasol arall.

3.40 Bydd y broses Datgan Diddordeb ar agor am chwe wythnos, ac rydym wedi cyhoeddi'r Galwad ffurfiol am ddatganiadau o ddiddordeb ar wefan Ofcom heddiw ochr yn ochr â'r Datganiad hwn.[74] Yn dilyn hyn, byddwn yn adolygu'r Datganiad o Ddiddordeb a dderbyniwyd ac yn cyhoeddi Gwahoddiad i Ymgeisio maes o law. Bydd y Gwahoddiad i Ymgeisio yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y broses y byddwn yn ei dilyn yn y rowndiau trwyddedu, gan gynnwys gwybodaeth am amserlenni a sut rydym yn rhagweld y byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau.

3.41 Nid yw Ofcom yn cyfyngu ar gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar sail lleoliad y gwasanaeth arfaethedig. Fodd bynnag, byddwn yn blaenoriaethu ein hasesiad o geisiadau gan ystyried y meini prawf canlynol:

a) ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu[75] gan drwydded radio cymunedol analog bresennol na darpariaeth amlblecs SSDAB;
b) ardaloedd lle mae radio cymunedol analog presennol yn bodoli, ond nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan amlblecs SSDAB;
c) ardaloedd lle mae amledd addas yn debygol o fodoli; a

[73] Gwahoddiad i Ymgeisio yw'r ddogfen ffurfiol a gyhoeddir gan Ofcom sy'n agor rownd trwyddedu radio cymunedol ac sy'n gwahodd ceisiadau am drwyddedau mewn ardaloedd penodol. Mae'n nodi'r ardaloedd y mae ceisiadau'n cael eu derbyn ar eu cyfer, gofynion ac amserlen y cais a gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer darpar ymgeiswyr

[74] Ymgynghoriad ar ddull strategol arfaethedig Ofcom o drwyddedu radio darlledu

[75] Yn y cyd-destun hwn (ac ar gyfer y meini prawf eraill yn y pwyntiau bwled dilynol), byddwn yn asesu ardaloedd 'nad ydynt yn cael eu gwasanaethu' o safbwynt a fyddai lleoliad arfaethedig y trosglwyddydd ar gyfer y drwydded radio cymunedol newydd o fewn darpariaeth naill ai a) trwydded radio cymunedol bresennol, neu b) ardal darpariaeth amlblecs SSDAB, neu ddarpariaeth arfaethedig amlblecs SSDAB sydd i fod i gael ei lansio pan fydd y drwydded radio cymunedol yn cael ei hysbysebu.

d) ardaloedd sydd wedi ildio eu trwyddedau o’r blaen.

3.42 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd Ofcom yn rheoli’r rownd trwyddedu yn unol â’n prosesau a’n gweithdrefnau sydd wedi’u nodi mewn deddfwriaeth ac yn ein nodiadau cyfarwyddyd. Mae’r nodiadau cyfarwyddyd wedi cael eu diweddaru ar ôl gweithredu Gorchymyn Radio Cymunedol 2025 a byddant yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r Datganiad hwn.

3.43 Rydym yn nodi bod rhai ymatebwyr wedi galw ar Ofcom i beidio â chyfyngu ei hun i rownd untro o drwyddedu FM. Yn hytrach, galwodd ymatebwyr ar Ofcom i gwblhau proses barhaus neu ‘ar-alw’ i drwyddedu gwasanaethau radio cymunedol FM lle mae galw. Cyfeiriodd un ymatebydd at y rownd leol flaenorol o drwyddedu radio cymunedol a gwblhawyd gan Ofcom yn Northampton yn 2020 i ddangos bod y dull hwn yn bosibl.[76]

3.44 Roedd eraill yn galw ar Ofcom i gael proses o ddirymu trwyddedau nad ydynt wedi bod yn darlledu ers tro a’u hysbysebu eto ar unwaith y tu allan i’r rownd trwyddedu.[77] Nid ydym yn cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Ofcom yn y tymor byr i’r tymor canolig. Pwrpas cynnal rowndiau trwyddedu yn hytrach na phroses drwyddedu barhaus neu ad hoc, yn rhannol, yw sicrhau bod Ofcom yn gallu cynllunio a rheoli’r galw ochr yn ochr â’r adnoddau sydd ar gael iddo, blaenoriaethau eraill a chyfrifoldebau cynllunio sbectrwm. Mae angen cryn dipyn o adnoddau i gwblhau rownd trwyddedu ar wahân. Mae rowndiau cynllunio yn caniatáu i ni gynllunio a neilltuo adnoddau i gyflawni’r canlyniad gofynnol, a fyddai’n llai effeithlon o lawer gyda phroses barhaus neu ad hoc. Felly, nid ydym yn cytuno y dylai Ofcom wyro oddi wrth ei gynnig i gynnal rownd trwyddedu analog, yn hytrach nag ymrwymo i rowndiau trwyddedu ad hoc ar ôl dirymu’r drwydded. Bydd rhagor o fanylion am ein cynlluniau i gwblhau rowndiau yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Gwahoddiad i Ymgeisio ar ôl i ni gwblhau’r cam Datgan Diddordeb.

3.45 Cynhaliwyd y broses drwyddedu yn Northampton, y cyfeiriwyd ati uchod, mewn amgylchiadau eithriadol, yn benodol oherwydd bod yr oedi cyn cyflwyno trwyddedau amlblecs SSDAB yn sgil y pandemig byd-eang wedi rhyddhau adnoddau Ofcom i reoli’r rownd benodol hon. Nid ydym yn rhagweld y bydd gennym yr adnoddau yn y dyfodol i reoli rowndiau trwyddedu ad-hoc ochr yn ochr â blaenoriaethau gwaith eraill. Oherwydd hyn, ein casgliad yw ein bod wedi ymrwymo i gynnal cyfleoedd ar gyfer trwyddedau radio cymunedol FM o fewn cyfyngiadau rownd trwyddedu wedi’i thargedu ac ni fyddwn yn ailhysbysebu trwyddedau yn y tymor byr i’r tymor canolig sydd naill ai’n cael eu hildio neu eu dirymu. O’r herwydd, er y byddwn yn ystyried Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd mewn ymateb i’r gwahoddiad a gyhoeddwyd gyda’r Datganiad hwn ar gyfer amleddau sydd eisoes wedi cael eu hildio neu eu dirymu, nid ydym yn rhagweld y byddwn yn cwblhau rowndiau trwyddedu ad hoc yn y dyfodol i ddisodli trwyddedau sydd wedi cael eu hildio neu eu dirymu (h.y. ar ôl i’r rownd bresennol ddod i ben).

3.46 Ar gyfer gwasanaethau sydd wedi bod oddi ar yr awyr am gyfnod, byddwn yn parhau â’n dull presennol o gysylltu â’r trwyddedai perthnasol a chymryd camau priodol. Os yw’n briodol, gallwn gymryd camau gorfodi yn unol â’n Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu,[78] gan gynnwys y blaenoriaethau gweinyddol a nodir yn y gweithdrefnau. Os yw’n briodol, gallwn hefyd ddirymu trwyddedau

[76] Maxxwave, t.6.

[77] Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol, tt.15-16; Better Media, tt.8-9.

[78] Ofcom, Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu, cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025.

yn unol â’r weithdrefn a nodir yn y Gweithdrefnau hynny ar gyfer ystyried sancsiwn statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu.[79] Dywedodd un unigolyn fod dull rheoleiddio Ofcom yn rhy anhyblyg, ac y dylid rhoi cyfleoedd i weithredwyr radio cymunedol symud neu drosglwyddo i drwydded radio masnachol bach. Fodd bynnag, mae’r fframweithiau trwyddedu ar gyfer trwyddedau masnachol a chymunedol analog yn gwbl ar wahân ac nid oes proses ddeddfwriaethol i ganiatáu ar gyfer trosglwyddo’r drwydded yn y fath fodd.

3.47 Bydd y broses rydym wedi penderfynu ei dilyn yn blaenoriaethu ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol ar sail lle rydym yn credu y mae’r budd mwyaf tebygol i gynulleidfaoedd. Rydym o’r farn bod hyn mewn ardaloedd nad oes ganddynt fynediad ar hyn o bryd at wasanaethau radio cymunedol naill ai drwy ddarparu gwasanaethau analog neu drwy amlblecsau SSDAB. Fodd bynnag, ni fyddwn o reidrwydd yn diystyru ceisiadau am drwyddedau FM mewn ardaloedd mwy trefol, ond rydym yn nodi y bydd y rhain yn llai o flaenoriaeth yn y rownd trwyddedu.

3.48 Ar ben hynny, bydd yr ymarfer blaenoriaethu y bydd Ofcom yn ei gwblhau ar ôl cyhoeddi’r Datganiad hwn yn caniatáu i Ofcom ddeall faint o ddiddordeb sydd ym mhob maes gwaith arfaethedig a phenderfynu ar y ceisiadau penodol i’w gwahodd ar sail yr adnoddau sydd ar gael yn seiliedig ar y galw.

3.49 Rydym yn cydnabod bod cael trwydded radio cymunedol analog yn rhoi mwy o eglurder ac annibyniaeth i ddarparwyr o ystyried eu gallu i reoli eu safleoedd trawsyrru eu hunain o’i gymharu â darlledu ar amlblecs digidol.

3.50 Soniodd rhai ymatebwyr am drwyddedu RSLs yn y dyfodol. Awgrymodd rhai na ddylid trwyddedu RSLs FM lle mae amlblecs SSDAB ar gael, naill ai i gadw sbectrwm ar gyfer trwyddedu FM cymunedol neu i gefnogi cynaliadwyedd SSDAB. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai mwy o gyfleoedd RSL fod ar gael i ganiatáu i wasanaethau cymunedol brofi’r galw gan gynulleidfaoedd. Er nad oedd yr ymgynghoriad hwn yn cwmpasu trwyddedu RSL, fe wnaethom nodi yn ein cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2026/27 ein bod yn bwriadu parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal y trwyddedau hyn. Fe wnaethom hefyd ymgynghori ar ein dull o drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig yn 2022.[80] Ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd, nid ydym o’r farn ar hyn o bryd bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau edrych eto ar y dull hwnnw. Rydym yn parhau i ystyried y gall RSLs FM fod yn briodol pan fydd gwasanaeth wedi’i fwriadu ar gyfer ardal fach iawn neu ddefnydd tymor byr. Gall hyn gynnwys gwasanaethau yn y gymuned, fel radio ysbyty, lle mae’n bosibl na fydd ardal ehangach y ddarpariaeth a gynigir gan SSDAB yn addas.

3.51 Galwodd un ymatebydd ar Ofcom i fod yn fwy hyblyg mewn perthynas â thrwyddedeion C-DSP yn gallu cael gafael ar gapasiti wedi’i neilltuo yn yr amlblecs SSDAB ‘cyfagos cyntaf’ i’w amlblecs presennol. Yn wahanol i radio cymunedol analog, nodwn y gall endid ddal nifer o drwyddedau C-DSP. Yn y senario hwn, gall trwyddedai C-DSP wneud cais i Ofcom am drwydded C-DSP eilaidd i gyd-ddarlledu’r cynnwys sy’n cael ei ddarlledu yn ei ardal ‘gartref’, cyn belled â’i fod yn gallu dangos y byddai ymestyn mentrau budd cymdeithasol yn berthnasol (sydd wedi cael ei ddefnyddio gan nifer o wasanaethau presennol).

3.52 Roedd rhai ymatebion yn galw ar Ofcom i sicrhau bod darparwyr radio masnachol bach yn cael eu diogelu rhag cystadleuaeth gan ddarpar geisiadau radio cymunedol sy’n ceisio gorgyffwrdd â’r gwasanaethau hyn. Yn flaenorol, roedd Gorchymyn Radio Cymunedol 2004 yn mynnu bod

[79] Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu
[80] Ofcom, 2022. Datganiad:Gwasanaethau Cyfyngedig – cynigion i gynyddu’r sbectrwm sydd ar gael a symleiddio ein dull trwyddedu

Ofcom yn asesu effaith economaidd darpar weithredwyr radio cymunedol sy'n gorgyffwrdd ar unrhyw wasanaeth lleol arall wrth ystyried ceisiadau. Fodd bynnag, roedd Gorchymyn Radio Cymunedol 2025 yn dileu'r gofyniad penodol hwn ac yn canolbwyntio yn lle hynny ar a yw ymgeisydd yn bodloni meini prawf a nodweddion statudol gwasanaeth radio cymunedol.[81] Yn yr un modd â rowndiau blaenorol o drwyddedu radio cymunedol analog, rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiynau wedi'u golygu o bob cais ar wefan Ofcom er mwyn i randdeiliaid sydd â diddordeb allu cyflwyno eu sylwadau.

3.53 Fodd bynnag, mae Gorchymyn Radio Cymunedol 2025 yn mynnu bod Ofcom yn parhau i weithredu cyfyngiadau cyllido wedi'u diweddaru ar wasanaethau radio cymunedol arfaethedig sy'n gorgyffwrdd â thrwydded radio masnachol lleol berthnasol.[82]

3.54 Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd y gallai ymestyn darpariaeth radio cymunedol arwain at ardaloedd darpariaeth sy'n debyg i ardaloedd darpariaeth gwasanaethau radio masnachol, hoffem atgoffa rhanddeiliaid y gall Ofcom awdurdodi ymestyn ardal drwyddedig i ardal neu gymdogaeth gyfagos dim ond os na fyddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn yr ardal drwyddedig, neu os yw Ofcom o'r farn bod modd cyfiawnhau'r cynnydd yn yr ardal drwyddedig o dan amgylchiadau eithriadol yr achos.[83] Wrth ddefnyddio'r prawf hwn, mae Ofcom yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys safle trwyddedig gwreiddiol y gwasanaeth, a oes modd ystyried bod yr estyniad yn sylweddol a'r effaith bosibl ar wasanaethau cyfagos. Cyhoeddir pob cais a rhoddir cyfle hefyd i randdeiliaid roi sylwadau ar y cynigion.

3.55 Mewn perthynas â rhai ymatebion sy'n awgrymu y dylai Ofcom fynd ymhellach na'r hyn roeddem wedi'i gynnig yn yr ymgynghoriad (fel creu trwyddedau radio cymunedol newydd sy'n caniatáu ar gyfer darpariaeth ehangach a chreu llwybr i drwyddedau radio cymunedol newid i drwyddedau radio masnachol neu ganiatáu i drwyddedeion radio amatur ddarlledu gwasanaethau radio cymunedol), byddai'r awgrymiadau hyn yn gofyn am ddiwygiadau deddfwriaethol ac o'r herwydd, maent yn faterion i'r Llywodraeth. Rydym o'r farn y bydd y cynigion blaenoriaethu tymor byr i dymor canolig a nodir yn y Datganiad hwn yn caniatáu i Ofcom hwyluso'r gwaith o ddarparu digon o wasanaethau radio i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol drwy amrywiaeth o wasanaethau radio. Fodd bynnag, byddwn yn nodi, gyda diddordeb, ganlyniad Adolygiad Radio'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn sicrhau bod ein blaenoriaethau a'n prosesau tymor hwy yn cyd-fynd â'r Adolygiad hwnnw fel y bo'n briodol.

3.56 Rydym hefyd yn nodi bod rhai ymatebion yn galw ar Ofcom i gwblhau mwy o ymchwil (ar bynciau fel fforddiadwyedd derbynyddion radio, gwrandawyr radio cymunedol ac ymchwil i'r diffiniad o gymuned) i gefnogi penderfyniadau trwyddedu. Rydym o'r farn nad oes angen ymchwil ychwanegol ar hyn o bryd er mwyn pennu ein blaenoriaethau tymor byr i dymor canolig. Rydym wedi trosglwyddo'r syniadau hyn i dîm ymchwil Ofcom i'w hystyried. Awgrymodd ymateb arall y dylai Ofcom foderneiddio ei systemau/cronfa ddata er mwyn gallu cwestiynu data'n 'fyw' drwy wefan Ofcom. Mae Ofcom wrthi'n datblygu systemau, er bod hyn yn debygol o gymryd amser i'w adeiladu a'i gyflwyno i gwmpasu'r mathau o drwyddedau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

---

[81] https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2025/9780348266900Gorchymyn Radio Cymunedol 2025

[82] Gorchymyn Radio Cymunedol 2025 (Offeryn Statudol 2025/160), Erthygl 5 ac Atodlen 1, sy'n addasu adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990. Mae Adran 105(2), fel y'i diwygiwyd, yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau trwydded sy'n ymwneud ag incwm o hysbysebion a nawdd pan fydd gwasanaeth radio cymunedol yn gorgyffwrdd â "thrwydded leol berthnasol".

[83] Adrannau 106(4) i (5) o Ddeddf Darlledu 1990

3.57 Rydym yn nodi pryder rhai rhanddeiliaid sy'n adlewyrchu'r pwysau masnachol sy'n wynebu gwasanaethau radio cymunedol, yn enwedig pan fydd offer presennol yn cyrraedd diwedd ei oes ac mae angen buddsoddiad cyfalaf naill ai i gynnal y ddarpariaeth bresennol neu oherwydd bod y gwasanaeth yn dymuno ehangu i ateb y galw gan gynulleidfaoedd. Mae penderfyniadau masnachol o'r fath yn faterion i randdeiliaid eu hystyried a phennu'r ffordd orau o gynyddu eu refeniw i gefnogi gwariant cyfalaf. Fodd bynnag, efallai y bydd rhanddeiliaid yn dymuno adolygu nodiadau cyfarwyddyd diweddaraf Ofcom ar gyfer y Gronfa Radio Cymunedol[84] sy'n nodi'r newidiadau y mae Ofcom wedi'u rhoi ar waith ar gyfer y rownd nesaf o gyllid radio cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i drwyddedeion radio cymunedol analog sydd wedi bod yn darlledu ers 10 mlynedd neu fwy wneud cais am offer newydd, sydd wedi bod y tu allan i'r cwmpas yn y gorffennol. Mae ceisiadau'n amodol ar feini prawf cymhwysedd a rhaid gwario'r arian yn unol â'r cytundeb grant perthnasol.

3.58 Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, ni wnaethom nodi pob ffordd rydym yn cefnogi trwyddedau radio cymunedol analog presennol ar hyn o bryd, fel parhau i ystyried ceisiadau am amrywiadau i'r Prif Ymrwymiadau a thasgau gweinyddol eraill sy'n ymwneud â thrwyddedu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddwn yn parhau i dderbyn y ceisiadau hyn yn unol ag arferion presennol ac fesul achos.

3.59 Mae'r un peth yn wir am RSLs; byddwn yn parhau i dderbyn ceisiadau am Drwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig ar gyfer Sefydliadau a Digwyddiadau yn unol â'n polisi a'n nodiadau cyfarwyddyd presennol.

3.60 Rydym yn nodi pryderon rhai rhanddeiliaid ynghylch y ffaith nad yw anghenion rhai cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn cael eu diwallu, gan gynnwys yr awgrym y dylai Ofcom ymgysylltu â RAJAR ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae RAJAR yn gorff mesur cynulleidfaoedd annibynnol sy'n cael ei redeg gan y diwydiant ac nid oes gan Ofcom rôl yn nyluniad ei arolwg. Felly, mae'n well codi unrhyw bryderon ynghylch sut mae cynulleidfaoedd yn cael eu hadlewyrchu yn nata RAJAR yn uniongyrchol gyda RAJAR, gan gynnwys drwy danysgrifiad gyda RAJAR a'r potensial o'u cynnwys yn eu harolwg.

## AM Cymunedol

### Yr hyn a ddywedon ni

3.61 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, nid oeddem wedi cynnwys darparu cyfleoedd newydd ar gyfer trwyddedu radio cymunedol AM ar ein rhestr o flaenoriaethau arfaethedig o ystyried yr heriau sy'n wynebu darlledwyr AM (fel y costau gweithredu uchel sy'n gysylltiedig â chynnal y seilwaith trawsyrru AM).

3.62 Ar gyfer trwyddedau AM presennol, fe ddywedom y byddem yn parhau i dderbyn a blaenoriaethu ceisiadau am estyniadau amser a newidiadau technegol.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.63 Ni chafodd Ofcom unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn cefnogi ein dull gweithredu arfaethedig o beidio â thrwyddedu gwasanaethau radio AM newydd mwyach.

3.64 Mynegodd Radio Caroline, trwyddedai presennol radio cymunedol AM, ddiddordeb mewn gwneud cais am newid technegol, wedi'i gefnogi gan ymateb gan Kevin Davies.[85]

[84] Ofcom, 2026. Cronfa Radio Cymunedol.
[85] Radio Caroline, t.4; Kevin Davies, t.1.

3.65 Roedd ymateb Radio Caroline yn herio rhai o'r safbwyntiau a nodwyd gennym ynghylch AM yn yr ymgynghoriad. Yn benodol, dywedodd Radio Caroline "rydym yn credu'n gryf y dylai [terfyn amser ar gyfer darlledu AM] fod yn fater i'r gwrandawyr benderfynu pa dechnoleg i'w defnyddio, nid mympwy grŵp pwyso'r llywodraeth neu'r diwydiant".[86] Yn eu hymateb, nodwyd eu hymateb i'r defnydd uchel o ynni wrth drawsyrru AM, gan egluro eu bod yn defnyddio ynni'r haul i gynyddu effeithlonrwydd ynni eu darllediadau, gan nodi hefyd bod eu "cynulleidfa'n tyfu'n barhaus".[87] Galwodd Radio Caroline hefyd ar Ofcom i ystyried creu "dosbarth" newydd o drwydded radio cymunedol, fel cynnig trwydded ranbarthol a fyddai'n caniatáu i drwyddedai ddarlledu i gynulleidfa ehangach.[88]

3.66 Galwodd Cornwall Radio ar Ofcom i barhau i drwyddedu gwasanaethau AM lle mae angen AM o'i gymharu â DAB neu FM, gan ddarparu gohebiaeth i egluro pam bod angen defnyddio AM yn ardal Cernyw oherwydd amodau topograffig ac atmosfferig.[89]

3.67 Er bod diddordeb rhanddeiliaid yn yr ardal hon yn sylweddol is nag ar gyfer FM, roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau na ddylai Ofcom gyfyngu'n ddiangen ar fynediad at sbectrwm AM ac na ddylid ei ddiffodd. Tynnodd nifer sylw at allu AM i gyrraedd cymunedau gwasgaredig a chwestiynodd a ddylai sbectrwm nad yw'n cael ei ddefnyddio barhau i fod ar gael lle mae galw credadwy yn bodoli.[90] Pwysleisiodd rhai ymatebwyr hefyd ddadleuon ynghylch gwytnwch a gwerth cyhoeddus, gan awgrymu bod unrhyw drafodaeth sy'n canolbwyntio ar ddiffodd gwasanaethau AM yn gynamserol.

## Ein hymateb

3.68 Mae tystiolaeth yn parhau i ddangos gostyngiad yn y nifer sy'n gwrando ar AM a heriau seilwaith sylweddol. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adran uchod, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gallai fod amgylchiadau o hyd lle gallai gwasanaeth AM ddarparu gwerth cyhoeddus a manteision i'r gynulleidfa.

3.69 Yn gyffredinol, ni fydd Ofcom yn blaenoriaethu trwyddedu gwasanaethau newydd i'w darlledu ar AM oherwydd ein bod yn ystyried yn gyffredinol y byddai cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu orau gan wasanaethau FM neu DAB. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a oes amgylchiadau eithriadol lle gallai fod yn briodol dyfarnu trwydded radio cymunedol AM fel rhan o'r broses Datgan Diddordeb a amlinellir yn adran 1 uchod. Bydd Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer gwasanaeth AM newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhanddeiliad nodi gwybodaeth ychwanegol i gyflwyno'r achos o blaid trwydded newydd sy'n darlledu ar AM. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried yr heriau sy'n wynebu cynaliadwyedd gwasanaethau AM.

3.70 Dyma'r wybodaeth ychwanegol a fydd yn cael ei darparu gan ddarpar ymgeiswyr radio cymunedol AM pan fyddant yn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i Ofcom:

a) Cynllun busnes manwl, sy'n darparu digon o wybodaeth i egluro sut bydd y rhanddeiliad yn rheoli'r heriau ariannol sy'n ymwneud â thrawsyrru AM (fel y costau gweithredu uchel y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.61). Dylai'r cynllun busnes hwn hefyd gynnwys

[86] Radio Caroline, t.1.
[87] Radio Caroline, t.1.
[88] Radio Caroline, t.5.
[89] Cornwall Radio, drwy e-bost
[90] Better Media, t.5; Lucinda Guy, tt.2 -3;Radio Utsav, t.4; Ray Anderson/UKGM, t.2; Trossachs Radio CIC, t.1; ✂; Maxxwave, tt.14-15.

tystiolaeth o ymgysylltu ag ymgynghorwyr technegol a/neu safleoedd trawsyrru i alluogi Ofcom i asesu a fyddai'r cynnig yn debygol o fod yn ariannol hyfyw.

a) Esboniad manwl o pam y byddai'n well gan y rhanddeiliad ddefnyddio AM yn hytrach na DAB a/neu FM. Dylai hyn fanylu'n benodol ar y rhesymau (naill ai'n dechnolegol neu'n dopograffig, er enghraifft) pam y byddai cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n well gan dechnoleg AM yn hytrach nag opsiynau mwy dibynadwy a chosteffeithiol.

3.71 Dylai'r rhanddeiliaid nodi, ar ôl cael Datganiadau o Ddiddordeb, mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd Ofcom yn ystyried gwahodd ceisiadau am wasanaethau AM, os byddwn o'r farn bod sail gadarn dros y cyfiawnhad a ddarperir yn y Datganiad o Ddiddordeb. Ni fyddwn yn ceisio cael eglurhad sylweddol fel rhan o'r broses Datgan Diddordeb, felly dylai darpar drwyddedeion AM ymdrechu i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i Ofcom er mwyn i ni allu ystyried y cyfiawnhad a gynigir. At hyn, os bydd Ofcom yn penderfynu gwahodd cais am drwydded AM ar sail yr wybodaeth a ddarperir yn y Datganiad o Ddiddordeb, nid yw'n gwarantu y bydd trwydded yn cael ei rhoi; bydd angen i Ofcom gynnal asesiad technegol o hyd i weld a oes sbectrwm ar gael ac asesu'r cais llawn yn erbyn y meini prawf statudol ar gyfer trwyddedau radio cymunedol fel y nodir yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2025 a deddfwriaeth berthnasol arall.

3.72 Fel y nodir ym mharagraffau 3.70 a 3.71, byddem ond yn ystyried trwyddedu gwasanaeth AM newydd os oes cyfiawnhad digonol wedi'i roi drwy'r broses Datgan Diddordeb i ddangos pam mai AM yw'r unig opsiwn ymarferol sydd ar gael, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut byddai hyn yn opsiwn gwell i gynulleidfaoedd. Ni fydd Ofcom yn ystyried hysbysebu cyfle ar gyfer gwasanaeth AM fel opsiwn amgen neu mewn cystadleuaeth (h.y. dau ddarpar ymgeisydd yn gwneud cais am amledd FM mewn lleoliad penodol) neu gynnig amledd AM lle nad oes amledd FM ar gael.

3.73 Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am bosibilrwydd diffodd AM, yn dilyn cyfeiriad yn yr Adolygiad Radio a Sain Digidol diwethaf a gwblhawyd gan Lywodraeth y DU ym mis Hydref 2021. Y Llywodraeth ac nid Ofcom fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch diffodd analog.[91]

3.74 Mae Ofcom yn cydnabod y bydd gan wasanaethau sy'n darlledu ar lwyfannau eraill brofiadau gwahanol o boblogrwydd ac effeithiolrwydd llwyfannau ar sail eu perfformiad a'u darpariaeth eu hunain. Bwriad yr ystadegau ynghylch defnyddio AM a oedd wedi'u cynnwys yn ein hymgynghoriad oedd rhoi cipolwg cyffredinol ar rai o'r heriau a wynebir yn fwy cyffredinol gan ddarparwyr gwasanaethau AM yn hytrach na bwriadu dangos mai dyma brofiad pob trwyddedai AM. Nodwn yr awgrymiadau a gyflwynwyd gan Radio Caroline fod y fframwaith presennol ar gyfer trwyddedau radio cymunedol yn cyfyngu ar pa mor bell y gall gwasanaethau analog ehangu i ateb y galw gan gynulleidfaoedd.[92] Nodwn fod newidiadau i ddiffiniad a nodweddion radio cymunedol yn fater deddfwriaethol i'r Senedd Brydeinig, sy'n golygu nad yw Ofcom yn gallu creu 'dosbarth' newydd o drwydded o fewn cyfyngiadau radio cymunedol i ganiatáu i rai darlledwyr ehangu eu darpariaeth.

3.75 Felly o ran trwyddedau radio cymunedol AM, yn y tymor byr i'r tymor canolig, rydym wedi penderfynu y byddwn yn parhau i ystyried ceisiadau am newidiadau technegol ar gyfer trwyddedau presennol ac yn ystyried trwyddedu gwasanaethau AM newydd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

---

[91] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2026. [Datganiadau ysgrifenedig - Cwestiynau, atebion a datganiadau ysgrifenedig - Senedd y DU]

[92] Radio Caroline t.5.

## Masnachol

### Yr hyn a ddywedon ni

3.76 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, roeddem yn cynnig parhau i gefnogi trwyddedau presennol ond peidio â darparu unrhyw gyfleoedd trwyddedu ar gyfer gwasanaethau radio masnachol lleol neu genedlaethol newydd ar FM neu AM.

3.77 Mae gorsafoedd radio masnachol yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o wrando byw ar y radio (55% o'r oriau wythnosol).[93] Fodd bynnag, yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom gydnabod bod cyfran o wrandawyr yn parhau i ddefnyddio radio masnachol drwy setiau radio AM/FM ac fe wnaethom gydnabod bod rhai cyfleoedd ar gyfer trwyddedau masnachol newydd yn bodoli mewn ardaloedd mwy tenau eu poblogaeth lle mae'r galw wedi bod yn is. Fe wnaethom hefyd nodi y gallai hyfywedd ariannol, o ganlyniad i'r lleoliadau gwledig lle mae'r cyfleoedd ar gael, fod yn fwy heriol. Gall cyfyngiadau ar faint o sbectrwm sydd ar gael hefyd gyfyngu ar ddarpariaeth unrhyw wasanaethau FM masnachol newydd ac arwain at ymyriant i wasanaethau presennol. Fe wnaethom hefyd egluro nad ydym yn credu bod galw sylweddol wedi bod ymysg cynulleidfaoedd am drwyddedau radio masnachol newydd ers i Ofcom gwblhau'r rownd ddiwethaf o drwyddedau radio masnachol a ddyfarnwyd yn gystadleuol yn 2008. Yn olaf, roeddem yn rhagweld y byddai dylunio ac ymgynghori ar fframwaith trwyddedu newydd ar gyfer trwyddedau radio masnachol yn cymryd cryn dipyn o amser.

3.78 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, roeddem felly'n cynnig peidio â chynnwys cynnig trwyddedau analog masnachol lleol newydd yn ein blaenoriaethau trwyddedu. Fe ddywedom nad ydym yn gallu darparu rhagor o drwyddedau darlledu cenedlaethol newydd mewn perthynas â gwasanaethau FM o ystyried y diffyg sbectrwm sydd ar gael ac na ddylai cyfleoedd newydd ar gyfer trwyddedau AM cenedlaethol fod yn flaenoriaeth, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn ffigurau gwrando cynulleidfaoedd ar AM. Yn olaf, roeddem yn rhagweld y byddai dylunio ac ymgynghori ar fframwaith trwyddedu newydd ar gyfer trwyddedau radio masnachol yn cymryd cryn dipyn o amser.

3.79 Roeddem o'r farn bod digon o gyfiawnhad i Ofcom barhau i gefnogi trwyddedeion radio masnachol analog presennol ac fe wnaethom gynnig parhau i ystyried ceisiadau ar gyfer:

a) adnewyddu "hyd" trwyddedau; a
b) newidiadau technegol gan gynnwys gwella darpariaeth ac ymestyn gwasanaethau er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well yn eu hardal leol.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.80 Cafodd Ofcom gefnogaeth eang i'r cynigion a oedd yn canolbwyntio ar drwyddedu analog radio masnachol.

3.81 Yn ei ymateb, roedd Radiocentre yn "cytuno mewn egwyddor â chynigion Ofcom"[94] ✂ ac, yn debyg i MuxCo Limited,[95] y dylid hefyd ystyried y blaenoriaethau trwyddedu ochr yn ochr â chanlyniad Adolygiad Radio parhaus Llywodraeth y DU.

3.82 Roedd Bauer Radio yn cefnogi ein cynnig i beidio â darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer trwyddedau radio masnachol analog, gan ddweud "nad oes lle ymarferol ar gyfer rhagor o wasanaethau FM masnachol". Dywedodd hefyd fod angen sefydlogrwydd trwyddedau

---

[93] Cyfryngau'r Genedl, Ofcom 2026 t.73.

[94] Radiocentre Ltd, t.1.

[95] MuxCo Limited, t.1.

parhaus ac opsiynau adnewyddu o hyd ar gyfer FM masnachol, pwynt a ailadroddwyd gan ddau ymatebydd cyfrinachol. Yn yr un modd, cadarnhaodd Dee Radio Group gefnogaeth gan ddweud "y byddem yn annog Ofcom i ystyried gwelliannau i ddarpariaeth FM ar gyfer darlledwyr masnachol lleol ochr yn ochr â darlledwyr cymunedol".[96]

3.83 Cafodd Ofcom ddau ymateb a oedd yn dadlau nad oedd cynigion ein hymgynghoriad yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r angen am fwy o drwyddedau radio masnachol analog yn y DU.

3.84 Roedd ymateb Nation Broadcasting yn awgrymu "nad yw'r blaenoriaethau trwyddedu... yn darparu digon o ddarpariaeth i gynulleidfaoedd ac nad ydynt yn cydnabod yr heriau y gallai'r sector radio eu hwynebu yn y dyfodol ar lefel Genedlaethol a Rhanbarthol o ystyried y rhyngddibyniaeth â safleoedd trawsyrru teledu daearol digidol".[97] Roedd yr ymateb hefyd yn awgrymu bod Ofcom yn cynllunio sbectrwm ymlaen llaw, gan adolygu anghenion y farchnad i benderfynu a fyddai sbectrwm ychwanegol ar gael i drwyddedu mwy o orsafoedd radio masnachol FM a chefnogi'r sector drwy gwblhau archwiliad o'r holl gyfleoedd sbectrwm i ganiatáu i weithredwyr ganfod gwasanaethau hyfyw yn y dyfodol.

3.85 Awgrymodd ymatebydd cyfrinachol fod y Ddeddf Cyfryngau yn symleiddio trwyddedu masnachol ac y dylai Ofcom, pan fydd amleddau AM yn dangos eu bod ar gael y tu hwnt i'r galw, wahodd ceisiadau am drwyddedau radio masnachol ar-alw ac ar sail y cyntaf i'r felin.[98]

## Ein hymateb

3.86 Mae Ofcom yn nodi, fel y nodir ym mharagraff 3.73, mai mater i Lywodraeth y DU ac nid Ofcom yw diffodd unrhyw analog. Fel sy'n cael ei egluro yn yr adran 'Trosolwg', mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â gosod blaenoriaethau Ofcom ar gyfer trwyddedu radio yn y fframwaith deddfwriaethol a'r cyd-destun darlledu presennol. Cadarnhaodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Chwefror 2026 ei bod yn bwriadu cynnal Adolygiad Radio, a fydd yn ymgysylltu â sefydliadau allweddol yn y diwydiant i fod yn rhan o'r adolygiad.[99] Ffocws yr Adolygiad yw "ystyried effaith newidiadau yn ymddygiad gwrandawyr a marchnadoedd sain dros y pum mlynedd diwethaf ac asesu'r heriau y mae'r BBC a radio masnachol yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cefnogi buddsoddiad parhaus mewn radio". Mae Ofcom wedi bod yn ymwybodol o'r Adolygiad wrth nodi'r blaenoriaethau trwyddedu tymor byr i dymor canolig hyn ar gyfer radio darlledu. Ar ôl cyhoeddi adroddiad Llywodraeth y DU (a ddisgwylir erbyn diwedd 2026), bydd Ofcom yn ymgysylltu â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n parhau i gyd-fynd â chanlyniad yr Adolygiad.

3.87 Fel y nodwyd uchod, yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom egluro bod y galw am drwyddedau radio masnachol newydd wedi bod yn gyfyngedig iawn ers i ni gwblhau trwyddedu analog ddiwethaf yn 2008, er inni gydnabod y gallai trwyddedu gwasanaethau FM neu AM gynyddu lluosogrwydd gwasanaethau radio yn y DU. Rydym hefyd yn ymwybodol bod gwrando analog yn parhau i ostwng o'i gymharu ag arferion gwrando ar lwyfannau eraill. O ystyried y duedd barhaus hon, nid ydym yn credu y dylai buddsoddi amser i ddylunio fframwaith trwyddedu newydd er mwyn galluogi Ofcom i drwyddedu trwyddedau radio masnachol analog newydd fod yn flaenoriaeth ar unwaith, yn

---

[96] Dee Radio Group.
[97] Nation Broadcasting, t.2.
[98] ✂
[99] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2025. https://www.gov.uk/government/news/ministers-kick-off-review-to-safeguard-radios-future.

enwedig pan mae Llywodraeth y DU wrthi'n asesu'r heriau sy'n wynebu'r sector yn ei Hadolygiad a phan mae gennym nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd ac adnoddau cyfyngedig i'w cyflawni.

3.88 Felly, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r sefyllfa a nodir yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, sef parhau i gefnogi trwyddedeion presennol sy'n gwneud cais i ymestyn hyd eu trwydded a/neu gais am newidiadau technegol, gan gynnwys gwella neu ymestyn darpariaeth.[100] Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i lunio fframwaith trwyddedu diwygiedig er mwyn galluogi Ofcom i ddarparu unrhyw gyfleoedd newydd i wneud cais am drwydded radio masnachol analog (lleol neu genedlaethol).

## Tonfedd Hir

### Yr hyn a ddywedon ni

3.89 Yn ystod ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, nid oeddem wedi ystyried na chynnwys y posibilrwydd o drwyddedu Tonfedd Hir newydd yn ein blaenoriaethau.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.90 Ers i'r BBC gyhoeddi ei fod yn cau gweithrediadau BBC Radio 4 ar amledd y Donfedd Hir, ✂cafodd Ofcom ymateb yn gofyn am gyfleoedd i ddefnyddio'r amledd hwn.[101] Eglurodd yr ymateb hwn fod gwasanaeth penodol yn gallu rhedeg amledd 198kHz yn fwy economaidd gyda throsglwyddydd diwygiedig a fyddai'n rhedeg "costau gweithredu sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon".[102] Roedd yr ymateb hwn hefyd yn egluro bod galw o hyd ymysg cynulleidfaoedd am wasanaeth sy'n targedu'r gynulleidfa hŷn (dywedodd fod BBC Radio 4 yn dal i gael ffigurau gwrando o dros 100,000 ar y Donfedd Hir yn unig, ond nid oedd y ddogfen ei hun yn cyfeirio at ddogfen gan y BBC i gadarnhau'r ffigur hwn). Dywedodd hefyd y byddai ymchwil a nodwyd yn yr ymateb (ond nad oedd yn darparu copi penodol ohono) yn dangos bod 60 miliwn o dderbynyddion radio hŷn ar ôl a fyddai'n gallu codi'r amledd 198kHz.[103]

### Ein hymateb

3.91 Yr amledd sy'n cael ei drafod gan randdeiliaid ar gyfer trwyddedu Tonfedd Hir yw 198kHz, sydd bob amser wedi cael ei ddefnyddio gan y BBC er mwyn darlledu Radio 4 ac sydd erioed wedi cael ei ddefnyddio'n fasnachol. Hynny yw, nid yw Ofcom na'i ragflaenwyr[104] erioed wedi gorfod hysbysebu trwyddedau i ddefnyddio'r darn penodol hwn o sbectrwm ar gyfer darlledu. Rydym yn ymwybodol o'r newid amlwg yn y gynulleidfa i gael gafael ar radio yn bennaf ar FM, DAB ac ar-lein (fel y cyfeirir ato uchod), ochr yn ochr â chostau uchel darparu gwasanaeth o'r fath i gynulleidfa a fyddai'n debygol o fod yn gyfyngedig iawn. Felly, nid ydym yn credu y dylai dylunio fframwaith trwyddedu newydd i ddarparu cyfleoedd i wneud cais am drwydded i ddarlledu ar 198kHz fod yn flaenoriaeth i Ofcom yn y tymor byr i'r tymor canolig.

3.92 Fel yr amlinellwyd uchod, yn ôl RAJAR, mae gwrando analog yn parhau i ostwng gyda chynulleidfaoedd yn defnyddio mwy o gynnwys sain ar DAB ac ar-lein.[105]

---

[100] Ofcom, 2022. https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/analogue-radio/commercial-coverage-improvements-and-extensions.
[101] Ray Anderson,
[102] Ray Anderson, Atodiad, t.2
[103] Ray Anderson, Atodiad
[104] O safbwynt radio, rhagflaenwyr Ofcom oedd yr Awdurdod Radio (1991 i 2003) a'r Awdurdod Darlledu Annibynnol (1973 i 1991)
[105] Cyfryngau'r Genedl, Ofcom 2026 tt.73-74.

3.93 Ar hyn o bryd nid ydym o'r farn mai trwyddedu gwasanaeth Tonfedd Hir cenedlaethol newydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio ein hadnoddau i helpu i ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd ledled y DU yn y tymor byr i'r tymor canolig. Er ein bod yn cydnabod bod yr ymatebydd cyfrinachol yn honni y byddai'r costau gweithredu y mae'n eu hystyried yn fwy economaidd,[106] rydym hefyd yn ymwybodol bod costau cynnal a chadw'r trosglwyddyddion Tonfedd Hir yn debygol o fod yn sylweddol. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw amcangyfrif cyhoeddus awdurdodol ar gyfer cost cynnal a gweithredu trosglwyddyddion Tonfedd Hir fel y rhai a ddefnyddiwyd i gludo BBC Radio 4. Yn hytrach, mae adroddiadau cyhoeddus ar gau gwasanaeth Tonfedd Hir BBC Radio 4 wedi canolbwyntio ar y ffaith bod y seilwaith trawsyrru yn heneiddio, ei bod yn mynd yn anoddach cynnal a chadw'r offer a bod cynulleidfaoedd yn mudo'n barhaus i lwyfannau eraill fel FM a llwyfannau digidol DAB.[107] Mae Ofcom o'r farn bod y rhain i gyd yn dal yn ffactorau perthnasol i ddangos ei bod yn debygol o fod yn eithriadol o heriol darparu model busnes credadwy i ddangos y byddai unrhyw ddarpar randdeiliad yn gallu cynnal gwasanaeth o'r fath.

3.94 Ar ben hynny, byddai angen i Ofcom benderfynu ar broses effeithiol ar gyfer trwyddedu'r darn hwn o sbectrwm ac yna ymgynghori ar fframwaith trwyddedu newydd, tebyg i'r broses rydym yn cadarnhau na fyddwn yn ei chwblhau ar gyfer radio masnachol lleol (gweler uchod). O ganlyniad, byddai unrhyw waith yn y maes hwn yn defnyddio adnoddau sylweddol ac yn effeithio ar allu Ofcom i ymateb i feysydd eraill ein blaenoriaethau trwyddedu fel y nodir yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026.

3.95 Rydym hefyd yn nodi, ar wahân i'r ymateb a gafwyd i'r Ymgynghoriad a'r ychydig iawn o ohebiaeth y mae Ofcom wedi'i chael y tu allan i'r Ymgynghoriad ynghylch defnydd posibl o amledd Tonfedd Hir y BBC, na ddangoswyd unrhyw ddiddordeb na galw pellach yn y maes hwn na chefnogaeth i'r gwasanaethau hyn o safbwynt cynulleidfa.[108]

# Blaenoriaethau radio digidol DAB

## Datblygu ymhellach y sector DAB ar raddfa fach

### Yr hyn a ddywedon ni

3.96 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom nodi bod SSDAB yn ffordd effeithiol o ddarparu gwasanaethau radio digidol yn rhad i ardaloedd daearyddol cymharol fach. O 01 Medi 2026 ymlaen, roedd 112 o amlblecsau SSDAB ar yr awyr, rhyngddynt yn trosglwyddo dros fil o wasanaethau rhaglenni, gan ddarparu llwybr i newydd-ddyfodiaid ddarlledu radio, yn ogystal â galluogi gwasanaethau cymunedol FM presennol i ddarlledu ar DAB am y tro cyntaf.

3.97 Ar ôl cwblhau'r wyth rownd arfaethedig o drwyddedu SSDAB, roeddem yn cynnig sianelu ein hadnoddau tuag at geisiadau gan drwyddedeion amlblecs SSDAB presennol i wella ac ymestyn eu darpariaeth. Gallai hyn helpu i wella'r ddarpariaeth gyffiniol i wrandawyr (yn enwedig y rheini mewn ceir) a helpu i gefnogi cynaliadwyedd y sector drwy alluogi trwyddedeion amlblecs, lle bo hynny'n ddymunol, i gwmpasu poblogaethau mwy. Byddai disgwyl i ymgeiswyr wneud cais gan ddefnyddio'r broses y mae Ofcom eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer ceisiadau i wella darpariaeth yn ardal darpariaeth bresennol y trwyddedai.

---

[106] Ray Anderson, Atodiad, t.2.
[107] BBC, https://www.bbc.co.uk/reception/work-warning/news/radio4lwhttps://www.bbc.com/mediacentre/articles/2026/radio-4-broadcasts-on-long-wave-to-end
[108] Ray Anderson, Atodiad

3.98 Roeddem hefyd wedi cynnig blaenoriaethu – lle bo hynny'n briodol a lle mae sbectrwm yn dal ar gael – ceisiadau i hysbysebu rhagor o ardaloedd amlblecs SSDAB. Fe wnaethom awgrymu y dylid gwneud hyn ar sail ad hoc yn hytrach na thrwy rowndiau strwythuredig o drwyddedu wedi'i gynllunio. Gan fod ceisiadau amlblecs SSDAB yn cymryd cryn dipyn o amser i'w hasesu, roeddem hefyd wedi cynnig, wrth gyflwyno datganiadau o ddiddordeb, y byddem yn gofyn am dystiolaeth glir a chadarn o'r galw am amlblecsau newydd gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni posibl.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.99 Roedd cefnogaeth eang i'n cynigion i roi cyfle i amlblecsau SSDAB wella ac ymestyn eu darpariaeth, ac i hysbysebu ardaloedd amlblecs SSDAB newydd.

3.100 Dywedodd Muxnet UK fod SSDAB "wedi dangos ei fod yn gallu darparu profiad o ansawdd uchel i wrandawyr, gan gynnig mwy o amrywiaeth o lawer o wasanaethau radio (a data), ac yn anad dim, cefnogi darparwyr cyfryngau lleol pan fydd llawer o grwpiau mwy yn tynnu'n ôl o'r farchnad. Wrth i gynulleidfaoedd symud o wrando'n analog i wrando'n ddigidol, mae SSDAB yn atal llawer o wrandawyr rhag cael eu dieithrio o'u gwasanaethau radio."[109]

3.101 Yn yr un modd, nododd Dee Radio Group fod SSDAB "wedi dod yn llwyfan digidol pwysig a fforddiadwy ar gyfer ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys llawer o weithredwyr masnachol llai, yn ogystal â darlledwyr cymunedol. Mae llai o rwystrau i fynediad ac mae wedi cefnogi lluosogrwydd, ac mae wedi darparu llwybr digidol realistig i'r farchnad ar gyfer gwasanaethau na fyddent fel arall yn gallu cael mynediad at gludo DAB lleol ar lefelau cost traddodiadol."[110]

3.102 O ran hysbysebu trwyddedau pellach, dywedodd Maxxwave nad yw'r ymgynghoriad yn diffinio beth a olygir wrth "tystiolaeth glir a chadarn o'r galw" ar gyfer amlblecs newydd ar raddfa fach, na sut y byddai Ofcom yn delio â datganiadau o ddiddordeb sy'n cystadlu â'i gilydd gyda darpariaeth sy'n gorgyffwrdd.[111] Dywedodd U.DAB Ltd: "Dylai'r meini prawf ar gyfer hyfywedd ariannol, yn ogystal â datganiadau'r cynigydd ynglŷn â'r galw a'r gwasanaethau i'w cludo, oll gael eu barnu'n feirniadol. Mae amlblecsau sy'n agos at fod yn wag yn lleihau'r ddarpariaeth sydd ar gael a hyfywedd ariannol amlblecsau mewn ardaloedd cyfagos ac ail gyfagos lawn cymaint â phetai eu capasiti'n cael ei ddefnyddio."[112]

3.103 Ar ben hynny, awgrymwyd y gallai fod tensiynau hefyd rhwng cais i ymestyn trwydded bresennol i ardal ddaearyddol benodol a chais i hysbysebu amlblecs newydd ar gyfer yr un ardal.[113]

3.104 Er eu bod yn dal i gefnogi ein cynnig i hysbysebu ardaloedd amlblecs SSDAB newydd, awgrymodd rhai ymatebwyr, o ran blaenoriaethau uniongyrchol Ofcom, y dylai fod yn flaenoriaeth is na'r gwaith arfaethedig ar wella ac ymestyn darpariaeth yr amlblecsau presennol. Nododd Lawrence Galkoff Associates Ltd, er enghraifft, fod y "Rhan fwyaf o gyfleoedd posibl wedi cael eu darparu gan Ofcom yn Rowndiau Un i Wyth ac os na chawsant eu dyfarnu, roedd hynny am nad oedd unrhyw ymgeiswyr addas, neu barnwyd nad oedd y polygon yn ymarferol." [114] Mewn arolwg o'i aelodau ar y mater hwn, dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol er bod 45% o'i haelodau'n teimlo y dylai amlblecsau SSDAB newydd fod yn "ystyriaeth" i Ofcom, dim ond 20% oedd yn credu y dylai fod yn "flaenoriaeth."[115]

---

[109] Muxnet UK, t.1.
[110] Dee Radio Group, t.2.
[111] Maxxwave Ltd, t.3.
[112] U.DAB Ltd, t.1.
[113] Maxxwave Ltd, t.3.
[114] Lawrence Galkoff Associates Ltd, t.1.
[115] Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol, t.12.

### Ein hymateb

3.105 Yng ngoleuni'r gefnogaeth eang gan ymatebwyr, ac yn unol â'r rhesymeg a grynhowyd ym mharagraffau 3.96 a 3.98 uchod, ni welwn unrhyw reswm dros wyro oddi wrth ein cynigion yn Ymgynghoriad mis Chwefror 2026 i flaenoriaethu ceisiadau gan drwyddedeion amlblecs SSDAB presennol i wella ac ymestyn ardaloedd darpariaeth ac i hysbysebu ardaloedd amlblecs SSDAB newydd ar sail ad-hoc yn y tymor byr i'r tymor canolig.

3.106 Serch hynny, rydym yn cytuno â'r pwynt a wnaed gan rai ymatebwyr y dylai hysbysebu ardaloedd trwydded amlblecs SSDAB newydd fod yn llai o flaenoriaeth na'n gwaith ar wella neu ymestyn darpariaeth amlblecsau SSDAB sydd eisoes wedi'u trwyddedu. A ninnau newydd gwblhau rhaglen drwyddedu wyth rownd, credwn ei bod yn briodol canolbwyntio ein hadnoddau ar helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sector drwy roi'r brif flaenoriaeth i asesu ceisiadau i wella ac ymestyn darpariaeth.

3.107 Dylid nodi hefyd, er bod rhaglen drwyddedu amlblecs SSDAB yn dal i fynd rhagddi, mai dim ond ceisiadau cymharol fach i wella darpariaeth yr oeddem yn gallu eu hystyried gan amlblecsau presennol, ac nid ceisiadau mwy sylweddol i ymestyn darpariaeth i ardaloedd cyfagos. Felly, mae llawer o drwyddedeion amlblecs wedi bod yn aros am gryn amser i allu cyflwyno ceisiadau o'r fath i Ofcom.

3.108 Byddai blaenoriaethu gwaith gwella darpariaeth cyn hysbysebu trwyddedau amlblecs newydd hefyd yn cael gwared ar unrhyw wrthdaro posibl sy'n codi rhwng gweithredwr amlblecs presennol sy'n dymuno gwneud cais i ymestyn ei ardal ddarpariaeth, a'r dymuniad i hysbysebu trwydded newydd ar wahân yn yr un ardal. Credwn y bydd hi'n fwy effeithlon ac economaidd hyfyw, ar y cyfan, i weithredwr amlblecs SSDAB presennol ymestyn ei ddarpariaeth i ardal nad yw'n cael ei gwasanaethu ar hyn o bryd yn hytrach na hysbysebu ardal drwydded newydd, ac sydd o bosibl yn fach iawn.

3.109 Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol darparu rhagor o fanylion ynghylch y gofyniad am dystiolaeth o'r galw gan ddarparwyr gwasanaeth posibl cyn y gellir hysbysebu ardal amlblecs newydd. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddiweddaru Nodiadau Cyfarwyddyd SSDAB, a bydd cyhoeddi'r rhain yn cael cyhoeddusrwydd yn Niweddariad Misol Ofcom ar Ddarlledu Radio. Bydd y Nodiadau Cyfarwyddyd diwygiedig hefyd yn rhoi mwy o fanylion am y broses ymgeisio ar gyfer estyniadau i ddarpariaeth.

## Cymhwyso'r terfyn uchaf o 40% ar gyfer amlblecsau DAB ar raddfa fach

### Yr hyn a ddywedon ni

3.110 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, wrth wahodd ceisiadau am drwyddedau amlblecs SSDAB, ei bod yn ofynnol i ni ar hyn o bryd ystyried pa mor "ddymunol" yw sicrhau nad yw'r boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu gan wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach yn gorgyffwrdd â mwy na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol presennol (y "terfyn uchaf o 40%"). Yn ymarferol, mae Ofcom yn gweithredu ar sail y ffaith bod hyn yn adlewyrchu bwriad yn y ddeddfwriaeth i gyfyngu ar y gorgyffwrdd yn unol â hynny mewn trwyddedau a ddyfernir.[116] Felly, yn dilyn ymgynghoriad[117] ar sut byddem yn arfer ein pwerau yn yr ardal newydd hon,

[116] Caiff hyn ei adlewyrchu yn natganiad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ei hymgynghoriad yn 2018 cyn pasio Gorchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019 drwy'r Senedd.

[117] Trwyddedu DAB ar raddfa fach: Sut byddai Ofcom yn defnyddio swyddogaethau newydd a gynigir gan y Llywodraeth

fe wnaethom benderfynu yn 2020 y byddem yn "gweithredu'r trothwy 40% ar gyfer gorgyffwrdd ym mhob achos" (pwyslais wedi'i ychwanegu) ar y sail bod "cymhwyso'r terfyn 40% yn rhoi mantais eglurder i randdeiliaid ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol."

3.111 Fodd bynnag, yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, roeddem yn cynnig, wrth asesu unrhyw geisiadau i wella neu ymestyn darpariaeth ar ôl lansio, a nodi'r disgresiwn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei roi i ni, y byddem yn fwy hyblyg nag y buom o'r blaen o ran defnyddio'r terfyn uchaf o 40%. Dywedwyd ein bod yn bwriadu cyflwyno'r hyblygrwydd hwn ar gyfer ceisiadau am estyniadau neu wella darpariaeth ar ôl lansio (ond nid ar gyfer ceisiadau trwydded newydd) er mwyn osgoi canlyniadau croes lle, er enghraifft, mae gwelliant sylweddol fuddiol i ddarpariaeth yn cael ei wrthod oherwydd bod y gorgyffwrdd ag amlblecs DAB lleol yn cynyddu ychydig dros 40%.

3.112 Fodd bynnag, roeddem hefyd wedi datgan na fyddem yn bwriadu rhoi'r gorau i'r targed 40%, o ystyried bod y terfyn uchaf o 40% yn adlewyrchu bwriad deddfwriaethol gan Senedd y DU, pan fydd gorgyffwrdd ag amlblecs radio lleol, mai dim ond lleiafrif clir o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig yr amlblecs radio lleol presennol y dylai'r amlblecs ar raddfa fach eu gwasanaethu.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.113 Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang i'n cynnig i fod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio'r terfyn uchaf o 40% wrth ystyried gwelliannau neu estyniadau i ardaloedd darpariaeth trwyddedeion amlblecs SSDAB presennol.

3.114 Fodd bynnag, roedd yr ymatebion hyn yn rhanedig iawn rhwng y rheini a oedd yn teimlo y dylai cwmpas ein disgresiwn arfaethedig fod yn gymharol gyfyngedig (fel y cynigiwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026) a'r rheini a oedd yn credu bod ein cynigion yn rhy ofalus ac y dylem fod yn fwy hyblyg o lawer wrth arfer ein disgresiwn ar y terfyn uchaf o 40%. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylem gyhoeddi meini prawf wedi'u diffinio'n glir ar sut byddem yn arfer ein disgresiwn.

3.115 Roedd lleiafrif bach o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu unrhyw newid o gwbl yn ein defnydd o'r terfyn uchaf o 40%, yn gyffredinol ar y sail y gallai arwain at ddyfodiad ardaloedd amlblecs mwy na fyddent yn addas i anghenion (a chyllidebau) gwasanaethau radio cymunedol sy'n dymuno gwasanaethu ardaloedd daearyddol ar wahân. Er enghraifft, dywedodd Belfast DAB Plus Limited "Nid ydym yn cytuno â'r newid gan mai'r risg yw bod gweithredwyr SSDAB yn cyfuno ardaloedd i herio gweithredwyr mwy ac felly'n gwyro oddi wrth y model cymunedol."[118]

3.116 Dywedodd Lucinda Guy y byddai'n "annog gofal ynghylch lleihau unrhyw gyfyngiadau ar SSDAB heb ddigon o dystiolaeth ei fod yn darparu dewis gwirioneddol a lluosogrwydd cynnwys a mynediad o ansawdd da at gyfranogiad [...] mae'r rheol 40% yn amddiffyniad rhag SSDAB sy'n cael ei yrru'n fasnachol ac sy'n cystadlu â'r amlblecsau mwy".[119]

3.117 Ymysg y rheini a oedd yn cefnogi ein cynnig i ddefnyddio rhywfaint o ddisgresiwn gyda'r terfyn uchaf o 40%, dywedodd Boom Radio: "Rydym yn cefnogi llacio rheolau sy'n caniatáu mwy o ddarpariaeth ar gyfer amlblecsau unigol, hyd yn oed os yw hyn yn golygu bod mwy o orgyffwrdd [ag amlblecsau radio lleol]. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r risgiau i weithredwyr masnachol presennol ac rydym yn gwerthfawrogi mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai Ofcom yn defnyddio unrhyw bwerau."[120]

[118] Belfast DAB Plus Ltd, t.1.
[119] Lucinda Guy, tt.1-2.
[120] Boom Radio Ltd, t.1.

3.118 Dywedodd Sunrise Radio Yorkshire ei fod yn cydnabod y gallai “defnyddio’r terfyn uchaf o 40% yn llym atal gwelliannau cymedrol ond ystyrlon i ddarpariaeth sy’n amlwg o fudd i’r cyhoedd, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â darpariaeth DAB dameidiog neu gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol”.[121] Fodd bynnag, awgrymodd y dylid diffinio unrhyw hyblygrwydd yn glir, oherwydd “Heb derfyn uchaf diffiniedig, mae risg sylweddol o ansicrwydd rheoleiddiol a phenderfyniadau anghyson, a allai arwain at erydu’n raddol fwriad deddfwriaethol y terfyn uchaf.”

3.119 Er nad oedd yn gwrthwynebu mewn egwyddor i Ofcom fabwysiadu dull mwy hyblyg o ymdrin â’r terfyn uchaf o 40%, mynegodd Radiocentre bryderon hefyd bod “unrhyw hyblygrwydd yn dal yn wirioneddol eithriadol, yn cael ei ddefnyddio’n dryloyw, ac yn cael ei gefnogi gan feini prawf clir sydd wedi’u cyhoeddi.”[122] Ychwanegodd, pan gynigir mynd dros y terfyn uchaf o 40%, “y dylai Ofcom gynnal asesiad llawn o’r effaith ar orsafoedd masnachol cyfagos, gan roi cyfle i ddarparwyr yr effeithir arnynt a gweithredwyr amlblecs presennol gyflwyno sylwadau.[123] Dylai hyn ystyried i ba raddau y mae’r gwasanaethau a ddarperir ar SSDAB yn wahanol i wasanaethau lleol eraill a’r effaith bosibl ar refeniw hysbysebu”.[124]

3.120 Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn teimlo nad oedd hyblygrwydd arfaethedig Ofcom ar y terfyn uchaf o 40% yn mynd bron yn ddigon pell i sicrhau unrhyw fanteision amlwg i’r diwydiant nac i wrandawyr, gyda llawer yn credu mai’r prif reswm dros y cap deddfwriaethol oedd dim ond diogelu amlblecsau radio lleol presennol rhag cystadleuaeth newydd. Ar ben hynny, roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau, hyd yn oed petai pryderon gwreiddiol am hyfywedd amlblecs radio lleol yn ddilys adeg llunio deddfwriaeth SSDAB (yn 2019), bod amlblecsau lleol yn ffynnu ar hyn o bryd ac nad oes tystiolaeth bod dyfodiad DAB ar raddfa fach wedi niweidio eu busnesau.

3.121 Roedd ymateb a gyflwynwyd ar ran Manchester DAB CIC, City West Digital CIC a South of the River Digital Radio yn awgrymu: “Gellir cyflwyno achos dros ddileu’r polisi terfyn uchaf o 40% yn gyfan gwbl oherwydd ei fod yn anacroniaeth...nid yw atal ymestyn neu wella darpariaeth SSDAB yn ystyrlon yn gwneud dim er budd defnyddwyr. I bob pwrpas, mae’n atal gwerth gorau i gynulleidfaoedd”.[125] Dywedodd y gall Ofcom ystyried rhagori ar faen prawf y terfyn uchaf o 40% “fel mater o drefn” a chymeradwyo ceisiadau sy’n fwy na’r terfyn uchaf o unrhyw swm.[126]

3.122 Roedd y Local DAB Association hefyd yn dadlau y dylai polisi terfynol Ofcom ar y terfyn uchaf o 40% “ganiatáu ar gyfer gormodiant y tu hwnt i lefelau ymylol yn unig lle mae’r budd i’r gynulleidfa yn glir a’r newid technegol yn gryf”.[127] Eglurodd “Mewn sawl lle, nid anghysondeb ymylol bach yw’r broblem. Mae’r ddarpariaeth SSDAB bresennol yn rhy wan, yn rhy ddarniog neu wedi’i chyfyngu’n ormodol i ddarparu gwasanaeth dibynadwy ar draws ardal a fwriadwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gwelliant ystyrlon i ddarpariaeth yn gofyn am fwy na chynnydd bach dros 40%. Os yw Ofcom yn caniatáu hyblygrwydd dim ond mewn achosion o brofiad cyfyngedig iawn, bydd y diffygion pwysicaf bron yn sicr yn aros heb eu datrys.”[128]

---

[121] Bradford City Radio Ltd T/A Sunrise Radio (Swydd Efrog), t.1.
[122] Radiocentre, tt.2-3.
[123] Radiocentre, tt.2-3.
[124] Radiocentre, tt.2-3.
[125] Manchester DAB CIC, City West Digital CIC a South of the River Digital Radio, atodiad, tt.3-4.
[126] Manchester DAB CIC, City West Digital CIC a South of the River Digital Radio, atodiad, tt.3-4.
[127] The Local DAB Association, atodiad, t.4.
[128] The Local DAB Association, atodiad, t.4.

3.123 Ychwanegodd y Local DAB Association, yng nghyd-destun cynnal yr asesiadau technegol o ddarpariaeth sy'n gorgyffwrdd rhwng amlblecsau, y dylem "adolygu a yw'r tybiaethau presennol o ran y ddarpariaeth dan do yn dal yn addas i'r diben." I gael rhagor o fanylion am y pwynt hwn, cymerwch gip ar baragraff 3.167.[129]

## Ein hymateb

3.124 O ystyried y gefnogaeth gyffredinol i'n cynnig i fod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio'r terfyn uchaf o 40%, ac am y rhesymau a nodir yn ein hymgynghoriad ac isod byddwn yn mabwysiadu ein safbwynt polisi arfaethedig ar hyn.

3.125 Er ein bod yn cydnabod – am y rhesymau y maent yn eu nodi – dymuniadau rhai gweithredwyr amlblecs SSDAB i allu gorgyffwrdd ag amlblecsau lleol o dipyn mwy na 40% (ac o bosibl hyd at 100%), yn ein barn ni mae angen i bolisi Ofcom barhau i adlewyrchu bwriad deddfwriaethol y senedd, ei bod yn "ddymunol" na ddylai'r gorgyffwrdd rhwng amlblecs DAB ar raddfa fach ac amlblecs radio lleol fod yn fwy na 40%.

3.126 Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, pan fyddwn yn asesu ceisiadau am estyniadau a gwelliannau i ddarpariaeth (er nad ceisiadau am drwyddedau amlblecs newydd), credwn y byddai'n ddoeth i ni arfer rhywfaint o ddisgresiwn, fel y mae'r ddeddfwriaeth yn ei ganiatáu, lle gellid sicrhau budd sylweddol i'r cyhoedd drwy fynd fymryn yn uwch na'r trothwy o 40%.

3.127 Gan ein bod o'r farn mai dim ond mewn ambell i achos eithriadol y dylid mynd y tu hwnt i'r trothwy hwn, er mwyn i Ofcom fod yn hyblyg ar y mater hwn, a gallu gwneud penderfyniadau synhwyrol ac ymarferol fesul achos, nid ydym yn bwriadu cyhoeddi meini prawf penodol ar gyfer cytuno ar geisiadau i newid darpariaeth sy'n uwch na'r terfyn uchaf o 40%, fel y mae rhai ymatebwyr wedi gofyn amdano. Fodd bynnag, yn unol ag ysbryd y Gorchymyn SSDAB, rydym yn cadarnhau y byddai'r rhagdybiaeth yn parhau yn erbyn gorgyffwrdd o fwy na 40% a'n bod yn annhebygol iawn o gymeradwyo unrhyw gais a oedd yn galluogi amlblecs ar raddfa fach i gwmpasu mwyafrif (h.y. dros 50%) poblogaeth oedolion amlblecs lleol.

3.128 Dylid nodi bod deddfwriaeth SSDAB yn mynnu bod Ofcom yn ymgynghori ar unrhyw gais am newid darpariaeth gan drwyddedai amlblecs a fyddai'n ymestyn ei ardal ddarlledu drwyddedig yn sylweddol i ardal 'gyfagos' (h.y. ardal nad oedd yn cael ei gwasanaethu'n flaenorol gan yr amlblecs). Yn yr achosion hyn, byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus yn gyfle i randdeiliaid godi unrhyw bryderon mewn achosion lle rydym, yn ein barn ragarweiniol, wedi awgrymu ein bod yn barod i ganiatáu gorgyffwrdd ag amlblecs DAB lleol o fwy na 40%.[130]

3.129 Yn y tymor hwy, mae Ofcom o'r farn mai mater i Senedd a Llywodraeth y DU fyddai diwygio'r Gorchymyn SSDAB i ganiatáu i amlblecsau ar raddfa fach orgyffwrdd mwy ag amlblecsau radio lleol yn gyson.

## Ceisiadau i hysbysebu rhagor o drwyddedau amlblecs DAB lleol

### Yr hyn a ddywedon ni

3.130 Ar hyn o bryd mae 58 o amlblecsau radio lleol yn darlledu sydd, rhyngddynt, yn gwasanaethu 92% o boblogaeth y DU. Lansiwyd yr un diweddaraf (ar gyfer Morecambe Bay)

[129] The Local DAB Association, atodiad, t.5

[130] Sylwch na fydd angen ymgynghori ar rai ceisiadau i wella darpariaeth sy'n torri'r terfyn gorgyffwrdd o 40% os yw Ofcom o'r farn nad ydynt yn ymestyn darpariaeth yr amlblecs yn sylweddol i ardal gyfagos.

ar 21 Rhagfyr 2021. Ers hynny, mae Ofcom wedi bod yn canolbwyntio ar gyflwyno amlblecsau SSDAB.

3.131 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, roeddem yn cynnig blaenoriaethu, lle bo'n briodol, geisiadau i hysbysebu rhagor o drwyddedau amlblecs DAB lleol mewn ardaloedd lle mae galw amlwg (h.y. mae amlblecsau lleol presennol yn llawn, neu lle nad yw'r ardal yn cael ei gwasanaethu), a lle mae amleddau'n dal ar gael.

3.132 Dylid nodi, gan fod rhaglen drwyddedu SSDAB bellach wedi'i chwblhau, y byddai angen cynnal dadansoddiad sbectrwm wedi'i ddiweddaru i weld ymhle, yn ddaearyddol, y byddai'r cyfleoedd posibl ar gyfer amlblecsau radio lleol newydd. Gallai'r cyfleoedd hyn fod yn fwy, neu'n llai, na'r rhai a nodwyd yn flaenorol yn ein Hymgynghoriad ar 'Drwyddedu SSDAB'[131]

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.133 Cafwyd ymatebion cymysg iawn i'r cynnig i drwyddedu ardaloedd amlblecs DAB lleol ychwanegol.

3.134 Roedd y rheini a oedd o blaid yn pwysleisio'r angen am fwy o gystadleuaeth yn y farchnad amlblecs radio lleol, a fyddai wedyn yn ysgogi datblygu gwasanaethau radio masnachol newydd ac o fudd i gynulleidfaoedd.[132]

3.135 Roedd Nation Broadcasting, er enghraifft, yn dadlau "y dylid rhoi blaenoriaeth i drwyddedu sbectrwm sy'n cael yr effaith fwyaf ar y farchnad ac sydd o fudd i'r nifer mwyaf o wrandawyr. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu blaenoriaethu rhyddhau amlblecsau DAB lleol ychwanegol, newydd mewn ardaloedd trefol sy'n gallu darparu gwasanaethau [rhaglen] newydd a chynyddu cystadleuaeth mewn marchnadoedd ystyrlon."[133]

3.136 Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn erbyn y cynnig, yn fwyaf cyffredin ar sail pryder am hyfywedd y sector DAB ar raddfa fach cychwynnol mewn ardaloedd lle gellid trwyddedu amlblecsau lleol newydd. Er enghraifft, dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol fod "Posibilrwydd amlwg y bydd y gorsafoedd SSDAB sy'n gryfach yn ariannol, sy'n debygol o fod yn fasnachol, yn ceisio symud i DAB lleol [amlblecsau] lle gallant gyrraedd cynulleidfa fwy. Bydd hyn yn golygu y bydd amlblecsau SSDAB yn colli eu gorsafoedd sy'n talu orau a fydd yn eu niweidio'n ariannol ac a allai beryglu eu hyfywedd ariannol ac arwain at rai ohonynt yn cau. O ganlyniad i hyn, ni fyddai gan gymunedau eu gorsaf radio cymunedol leol a byddai gan wrandawyr lai o ddewis".[134] Nododd hefyd y gallai'r bwriad i ehangu DAB "gael effaith niweidiol ar orsafoedd radio cymunedol ar amlblecsau SSDAB yn ogystal â'r amlblecsau SSDAB eu hunain".[135]

3.137 Yn yr un modd, dadleuodd Dee Radio Group "fod yn rhaid rhoi cyfle teg i amlblecsau SSDAB presennol sicrhau darpariaeth gynaliadwy ac effeithiol yn dechnegol, ac na ddylid dyrannu sbectrwm i amlblecsau DAB lleol newydd sy'n gorgyffwrdd heb [i Ofcom] ystyried yn gyntaf a allai sicrhau mwy o fudd i'r cyhoedd drwy wella SSDAB".[136]

---

[131] Yr ardaloedd a nodwyd yn flaenorol oedd y rhan fwyaf o'r Alban (ac eithrio'r de orllewin); Gogledd Iwerddon; Tyneside a Teesside; a Dyfnaint a Chernyw.
[132] Ar wahân i Lundain Fwyaf a Chanol yr Alban, dim ond un amlblecs radio lleol sy'n gwasanaethu gwrandawyr fel arfer.
[133] Nation Broadcasting, t.1.
[134] Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol, t.1.
[135] Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol, t.3.
[136] Dee Radio Group, t.2.

3.138 Dywedodd Bauer Media Audio UK ei fod yn credu bod “SSDAB yn ychwanegu digon o gapasiti i ddileu’r angen am ragor o amlblecsau DAB lleol, ac eithrio efallai mewn ardaloedd lle nad oes amlblecs DAB lleol ar hyn o bryd (fel Gororau’r Alban)”.[137]

3.139 Dywedodd un ymatebydd cyfrinachol fod defnyddio sbectrwm ar gyfer DAB lleol yn llai effeithlon nag ar gyfer SSDAB, a bod pob uned o sbectrwm yn gallu darparu ar gyfer mwy o amlblecsau ar raddfa fach nag amlblecsau lleol.[138]

## Ein hymateb

3.140 Rydym yn cydnabod bod y cwestiwn ynghylch a ddylid ymgymryd â rhagor o drwyddedu amlblecs lleol wedi bod yn un o’r materion mwyaf rhwygol yn yr ymgynghoriad hwn. Mae’r rheini sy’n ffafrio trwyddedu amlblecsau lleol newydd yn credu y byddai’n hybu mwy o gystadleuaeth a dewis i wrandawyr, ac mae’r rheini sy’n gwrthwynebu hyn yn ofni y gallai leihau’r dewis i wrandawyr oherwydd gallai olygu bod amlblecsau SSDAB a lansiwyd yn ddiweddar yn anymarferol yn economaidd.

3.141 At ei gilydd, ar ôl ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad, rydym wedi dod i’r casgliad, ar hyn o bryd, na ddylai rhagor o drwyddedu amlblecs radio lleol fod yn flaenoriaeth trwyddedu i Ofcom yn y tymor byr i’r tymor canolig. Dyma ein rhesymau dros hyn:

a) Rydym yn cytuno â’r ymatebwyr hynny sydd wedi awgrymu y gallai trwyddedu amlblecsau radio lleol newydd gael effaith ansefydlogi ar ddatblygiad SSDAB, yn enwedig o gofio nad yw rhai amlblecsau SSDAB wedi cael eu lansio eto a’r ffaith bod eraill yn debygol o fod yn ceisio gwella neu ymestyn eu darpariaeth cyn bo hir. Rydym yn cydnabod y pryderon posibl ynghylch effaith dadsefydlogi SSDAB ar gymunedau gwledig a lleiafrifol fel y trafodwyd yn yr Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol. Rydym hefyd yn cydnabod bod y sbectrwm sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau DAB yn y DU yn gyfyngedig. Gallai hyn olygu bod galw cystadleuol am y sbectrwm pe baem yn trwyddedu amlblecsau lleol newydd ar yr un pryd â datblygu DAB ar raddfa fach (er ein bod yn nodi bod amlblecsau ar raddfa fach mewn llawer o achosion yn defnyddio sbectrwm pwrpasol nad yw’n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer amlblecsau lleol).
b) Nodwn mai ychydig o ymatebion i’r ymgynghoriad a gafwyd gan ymatebwyr a fynegodd ddiddordeb mewn gwneud cais am amlblecsau radio lleol newydd, pe baent yn cael eu hysbysebu gan Ofcom.
c) Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, er mwyn gallu hysbysebu amlblecsau radio lleol newydd, byddai angen i ni ymgynghori ar broses drwyddedu ddiwygiedig. O ganlyniad i Ddeddf y Cyfryngau 2024, ni fyddai rhai o'r meini prawf statudol a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan Ofcom ar gyfer gwneud penderfyniadau dyfarnu trwyddedau ar gyfer amlblecsau radio lleol newydd yn berthnasol mwyach. Yn benodol, nid allwn ystyried y gwasanaethau rhaglenni y mae ymgeisydd amlblecs yn bwriadu eu darlledu mwyach (na lefel y galw a’r gefnogaeth gan wrandawyr ar gyfer y gwasanaethau hynny). Y rheswm dros hyn yw nad oes gan Ofcom y pŵer mwyach i gymeradwyo na gwrthod newidiadau i’r drefn amlblecs, hyd yn oed yn ystod cam gychwynnol dyfarnu’r drwydded.

3.142 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Hadolygiad Radio ym mis Chwefror 2026 a oedd yn canolbwyntio ar ystyried senarios yn y dyfodol ar gyfer sut mae gwrandawyr yn defnyddio cynnwys radio a sain yn y DU a sut gallai’r rhain effeithio ar strategaethau dosbarthu yn y

[137] Bauer Media Audio UK, t.3.
[138] ✂

dyfodol ar gyfer diwydiant radio'r DU. Pan lansiodd yr Adolygiad, dywedodd Llywodraeth y DU y bydd yr adolygiad, ymysg pethau eraill, yn ystyried "A ddylid rheoli'r broses o symud oddi wrth FM yn y 2030au ac, os felly, dros ba gyfnod, ac argaeledd gwasanaethau radio'r DU ar bob llwyfan." Yn hytrach na chychwyn ar raglen newydd o drwyddedu rhagor o amlblecsau radio lleol ar hyn o bryd, credwn y byddai'n ddoeth aros am ganlyniad yr Adolygiad, ac yna weithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant ehangach i roi'r argymhellion ar waith.

# Ystyriaethau sbectrwm a thechnegol

## Yr hyn a ddywedon ni

3.143 Roedd ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026 yn nodi'r ystyriaethau sbectrwm sy'n berthnasol i'n strategaeth trwyddedu darlledu arfaethedig. Fel y rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am reoli bandiau sbectrwm radio sifil y DU, rhaid i Ofcom reoli'n ofalus y galw a'r defnydd a allai fod yn cystadlu â'i gilydd am sbectrwm i sicrhau bod yr adnodd cyfyngedig hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, a bod ymyriant yn cael ei reoli'n briodol.

3.144 Yn benodol, roedd ein Hymgynghoriad yn disgrifio'r patrwm eang presennol o argaeledd sbectrwm ar gyfer gwahanol lwyfannau a bandiau radio darlledu.

3.145 Fe ddywedom nad oes mwy o gapasiti ar gyfer unrhyw radio FM cenedlaethol ychwanegol na gwasanaethau DAB cenedlaethol, nac ar gyfer gwasanaethau darpariaeth FM ardal eang ychwanegol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae rhai cyfleoedd FM yn bodoli mewn ardaloedd mwy tenau eu poblogaeth lle mae'r galw wedi bod yn is yn hanesyddol, er y gallai darpariaeth unrhyw orsafoedd FM newydd fod yn gyfyngedig iawn.

3.146 Gallai'r sbectrwm sydd ar gael hefyd gefnogi rhai cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer amlblecsau DAB (masnachol) lleol newydd mewn rhai ardaloedd.

3.147 Yn olaf, fe ddywedom hefyd ei bod yn debygol y bydd cyfleoedd sbectrwm ar gyfer amlblecsau DAB newydd neu well ar raddfa fach mewn ardaloedd nad oeddent wedi'u hysbysebu fel rhan o raglen drwyddedu SSDAB, mewn ardaloedd lle na wnaed cais am drwyddedau (neu lle na wnaethant fwrw ymlaen i lansio ar ôl dyfarnu trwydded), neu lle mae amlblecsau'n gwasanaethu ardaloedd daearyddol mwy cyfyngedig na phan gawsant eu hysbysebu'n wreiddiol.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.148 Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon cyffredinol am ddarpariaeth bresennol gwasanaethau SSDAB, gan gyfeirio at amrywiol ffactorau fel derbyniad afreolaidd, anawsterau derbyn signal yn y car, derbyniad ysbeidiol yn y cartref, a diffyg darpariaeth gyffiniol ar gyfer gwahanol amlblecsau ar raddfa fach neu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

3.149 Ymatebydd cyfrinachol ✂[139]

3.150 Roedd naw ymatebydd (gan gynnwys un ymatebydd cyfrinachol wedi codi pwyntiau gweddol debyg ynghylch y trothwy technegol a ddefnyddir gan Ofcom i ragweld darpariaeth dan do (ac felly i ddiffinio ardal drwyddedig) amlblecsau SSDAB.[140] Roedd pob ymatebydd a fynegodd bryderon am y trothwy cynllunio darpariaeth yn gwneud hynny yng nghyd-destun ein cwestiwn ymgynghori ar y terfyn gorgyffwrdd o 40% ar gyfer amlblecs lleol (gweler paragraffau 3.120 i 3.123). Roedd ymatebwyr yn cwestiynu'r defnydd presennol a'r defnydd yn y dyfodol o'r trothwy hwn am y rhesymau sy'n cael eu crynhoi isod.

[139] ✂
[140] ✂

3.151 Yn benodol, roedd y Local DAB Association, Dee Radio Group a Station House Media Unit wedi mynegi pryderon tebyg ynghylch y gwerth trothwy cryfder maes (63 dBµV/m) a ddefnyddir i ragweld darpariaeth SSDAB dan do.[141] Awgrymodd y Local DAB Association a Dee Radio Group fod "darpariaeth a fodelwyd yn gorddatgan derbyniad ar y ddaear" ac felly o bosibl "yn arwain at ganlyniadau gwaeth i gynulleidfaoedd na'r hyn a fwriadwyd yn ymarferol".[142] Dywedodd Bristol Digital Radio CIC, U.DAB a Manchester DAB CIC fod y gwerth presennol o 63dBµV/m yn groes i safonau cynllunio rhyngwladol mewn amgylcheddau trefol dwys.[143] Dywedodd Hot Radio a Lawrence Galkoff Associates na fyddai 63 dBµV/m o bosibl yn darparu derbyniad dibynadwy dan do mewn rhai amgylcheddau, gyda Muxnet UK yn cyfeirio at rwystrau (*clutter*) yn amharu ar y ddarpariaeth.[144]

3.152 Awgrymodd High Peak One Digital, yr Athro Paul Groves a Maxxwave y dylai Ofcom adolygu neu ddyrannu adnoddau sbectrwm ychwanegol i DAB ar raddfa fach.[145] Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y gellid, er enghraifft, ailddyrannu amleddau o radio busnes neu Greu Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) naill ai'n barhaol neu mewn ymateb i amgylchiadau eithriadol at ddefnydd DAB.

3.153 Awgrymodd Lawrence Galkoff Associates Ltd fod cyfle, yn dilyn rownd derfynol rhaglen drwyddedu SSDAB, i ailedrych ar y cynllun amledd cyffredinol ar gyfer SSDAB i leihau ymyriant gan bolygonau cyfagos, gan roi gwell cyfle o bosibl i amlblecsau newydd neu estynedig ar raddfa fach.[146]

3.154 O ran trwyddedu a rheoli sbectrwm yn y dyfodol, dywedodd Better Media y dylai Ofcom gynnal "adolygiad strwythuredig o'r tybiaethau rheoli sbectrwm sy'n parhau i ffafrio patrymau darpariaeth hanesyddol ardal eang". Awgrymodd hefyd y dylid moderneiddio systemau ymgynghori, trwyddedu a rheoli sbectrwm Ofcom i ganiatáu i ddata byw fod ar gael ac, yn y tymor hwy, trwyddedu ar-alw.[147]

3.155 Dywedodd Nation Broadcasting y dylai Ofcom gyhoeddi archwiliad llawn o'r "holl gyfleoedd sbectrwm presennol a phosibl (FM a DAB), gan gynnwys cyfaddawdau, a allai gefnogi datblygiad radio masnachol". Dywedodd y byddai hyn "yn caniatáu i weithredwyr ganfod gwasanaethau hyfyw yn y dyfodol". Awgrymodd Nation Broadcasting hefyd y gallai "proses gynhwysfawr o ailgynllunio sbectrwm radio cymunedol ryddhau capasiti sylweddol ar gyfer trwyddedau FM newydd".[148]

3.156 Roedd un ymatebydd cyfrinachol ✂, Maxxwave, Boom Radio a Radiocentre wedi mynegi pryderon am ddefnyddio capasiti ar amlblecsau DAB a materion eraill ynghylch rheolaeth dechnegol amlblecsau.[149] Nododd un ymatebydd fod rhai amlblecsau ar raddfa fach yn cludo nifer bach o wasanaethau rhaglenni. Dywedodd fod hyn yn cynrychioli defnydd annigonol o sbectrwm ac yn cyfeirio at ddyletswyddau rheoli sbectrwm Ofcom. Awgrymodd

[141] Local DAB Association t.4; Dee Radio Group, t.3; Station House Media Unit t.1.
[142] Dee Radio Group, t.3.
[143] Bristol Digital Radio CIC, t.2; U.DAB Ltd t.1-2; Manchester DAB CIC / City West Digital CIC / South of the River Digital tt.6-7.
[144] Hot Radio, t.3, Lawrence Galkoff Associates, tt.3-4; Muxnet UK t.1.
[145] High Peak One Digital, tt.3-4; Yr Athro Paul Groves, tt.2-3; Maxxwave Ltd, tt.18-19
[146] Lawrence Galkoff Associates Ltd, tt.6-7.
[147] Better Media, t.3, t.7.
[148] Nation Broadcasting Ltd, tt.3-4.
[149] Maxxwave, t.20; ✂; Boom Radio tt.1-4; Radiocentre t.2.

hefyd y dylai Ofcom fonitro deiliadaeth ac ymgysylltu â gweithredwyr amlblecs perthnasol ac annog marchnata'r capasiti hwn.[150]

3.157 Mynegodd Boom Radio bryderon hefyd am ddiffyg capasiti DAB cenedlaethol yn ogystal â darpariaeth wahaniaethol rhwng yr ail amlblecs DAB cenedlaethol (SDL) a'r amlblecs cenedlaethol cyntaf (D1), sy'n awgrymu y gallai Ofcom annog yn gryf y dylid trosi'r gwasanaeth i DAB+, ac awgrymodd hefyd y gellid gofyn ar wahân i'r BBC drosi ei amlblecs DAB cenedlaethol i DAB+, gan ryddhau capasiti o bosibl ar gyfer gwasanaethau masnachol cenedlaethol newydd.[151] Gwnaeth Radiocentre a Nation Broadcasting bwyntiau tebyg am gapasiti DAB cenedlaethol ac amlblecs cenedlaethol y BBC.[152]

3.158 ✂[153]

3.159 Dywedodd Bauer Media Audio UK fod trwyddedeion amlblecs SSDAB yn ddarostyngedig i safonau llai llym nag amlblecsau DAB masnachol lleol o ran y gofynion arnynt i unioni'r ymyriant a achosir gan ymyriant sianeli cyfagos (neu 'ACI': mae hon yn broblem a all weithiau effeithio ar dderbyniad amlblecsau presennol pan fydd trosglwyddyddion newydd yn dechrau cael eu defnyddio). Cyfeiriodd at Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn 2012 a oedd yn mynnu bod Bauer Digital Radio a CE Digital yn adeiladu nifer o drosglwyddyddion llenwi yn ystod gwaith ehangu rhwydwaith blaenorol. [154]

3.160 Dywedodd Maxxwave y dylid adolygu meini prawf cynllunio amledd FM Ofcom, yn benodol y gymhareb gwarchod cyd-sianeli ar gyfer gwasanaethau stereo, a bod modd sicrhau darpariaeth dderbyniol ar gymarebau gwarchod sy'n sylweddol is na'r 45dB presennol (o bosibl 20-25dB yn is).[155] Mae'r ymatebydd hwn yn datgan bod y ffigur o 45dB yn deillio o Argymhelliad BS.412 yr ITU, nad yw'n orfodol, ac mae'n dyfynnu dadansoddiad trydydd parti sydd wedi dangos bod achosion o ailddefnyddio amledd FM yn y DU ymysg yr isaf yn yr UE.[156]

3.161 Dywedodd Maxxwave na ddylai unrhyw amleddau AM sy'n cael eu hildio gan ddarlledwyr eistedd yno heb gael eu defnyddio, ac y dylid datblygu fframwaith parhaol ar gyfer defnydd amgen os nad yw'r amleddau hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion darlledu.[157] Dywedodd yr ymatebydd ei bod yn anghyson â dyletswyddau effeithlonrwydd sbectrwm Ofcom i beidio â mynd ar drywydd naill ai ddefnydd darlledu neu ddefnydd amgen ar gyfer amleddau AM.[158]

3.162 Llwyfannau darparu amgen ar gyfer gwasanaethau radio: Roedd rhai ymatebwyr wedi codi materion ynghylch darparu gwasanaethau radio drwy rwydweithiau nad ydynt yn rhai darlledu. Dywedodd Belfast DAB Plus a'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol fod rhwydweithiau symudol nawr yn ffordd arall hyfyw o ddosbarthu radio, gan gwestiynu'r angen am SSDAB.[159] Cyfeiriodd at ehangu'r rhwydwaith symudol a ariennir gan Lywodraeth

[150] Maxxwave, t.20.
[151] Boom Radio Ltd, tt.1-3.
[152] Radiocentre, t.2; Nation Broadcasting, t.2.
[153] ✂
[154] Bauer Media Audio UK, tt.2-3.
[155] Maxxwave, t.12.
[156] Maxxwave, t.12.
[157] Maxxwave, t.2.
[158] Maxxwave, t.2.
[159] Belfast DAB Plus, t.2, Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol (Atodiad Cyfrinachol) tt.10-11.

y DU i ardaloedd gwledig ac integreiddio llwyfannau radio rhyngrwyd mewn cerbydau fel ffactorau sy’n ffafrio darparu rhwydweithiau symudol.

3.163 Dywedodd Phonic FM / ExeDab fod ein blaenoriaethau trwyddedu arfaethedig yn seiliedig ar dybiaethau am y dechnoleg sydd ar gael a nododd fod cyflymder presennol newid technolegol yn golygu bod angen darpariaeth i addasu i roi cyfrif am newidiadau pellach yn y dyfodol yn y ffordd mae gwasanaethau darlledu’n cael eu darparu.[160]

3.164 Ar y llaw arall, roedd Radio Caroline yn cwestiynu gwydnwch darparu gwasanaethau radio ar y rhyngrwyd, gan ddweud bod datblygiadau geowleidyddol ansicr yn y dyfodol yn golygu y dylid osgoi dibynnu ar gysylltedd ar-lein (a chwmnïau cysylltiedig sy’n ‘borthorion’) ar gyfer gwasanaethau darlledu.[161]

## Ein hymateb

3.165 Mae sylwadau sy’n ymwneud â phŵer trosglwyddydd SSDAB a phryderon ynghylch darpariaeth yn fwyaf perthnasol i’n penderfyniad i gyflwyno hyblygrwydd ar y terfyn gorgyffwrdd o 40% ar gyfer amlblecs lleol, sy’n cael sylw ym mharagraffau 3.124 i 3.129 uchod.

3.166 O ran trosglwyddyddion llenwi pŵer isel, mae ein proses bresennol ar gyfer gwneud cais am newid darpariaeth ar ôl lansio (sydd wedi’i nodi yn Adran 7 o Nodiadau Cyfarwyddyd Ofcom ar gyfer trwyddedeion amlblecs ar raddfa fach) yn rhoi manylion ynghylch yr amgylchiadau lle gallwn ystyried ceisiadau am drosglwyddyddion newydd.[162] Mae cynigion ar gyfer trosglwyddyddion pŵer isel sydd â’r bwriad o lenwi ‘bylchau’ yn ardal ddarpariaeth bresennol amlblecs yn unig (heb ymestyn ardal ddarpariaeth yr amlblecs yn sylweddol) yn debygol o gael eu cymeradwyo heb fod angen ymgynghoriad cyhoeddus, er ein bod yn asesu pob cais i newid darpariaeth sy’n dod i law yn ôl ei haeddiant ei hun ac yn ystyried ei effeithiau posibl ar randdeiliaid eraill.[163]

3.167 Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad yn 2019 a’n Datganiad dilynol ar drwyddedu SSDAB, mae cryfder maes o 63 dBµV/m wedi cael ei ddefnyddio’n gyson gan Ofcom drwy gydol y gwaith o gynllunio gwasanaethau DAB masnachol (ac yn fwyaf diweddar ar raddfa fach) yn y DU fel rhywbeth sy’n cynrychioli’r lefel lle mae signal dan do boddhaol yn bosibl yn y rhan fwyaf o leoliadau.[164] Am y rhesymau a nodir yn y Datganiad hwnnw, nid yw’n bosibl i ni gyfyngu ymyriant o ardaloedd SSDAB eraill i lefel ddigon isel i warchod derbyniad symudol yn yr awyr agored ar 54 dBuV/m o fewn yr adnodd amledd cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau DAB ar raddfa fach.

3.168 Rydym yn cydnabod na all defnyddio gwerth cryfder maes unffurf ar gyfer diffinio darpariaeth a ragfynegir ystyried effeithiau pob math o ‘rwystrau’ megis ardal sy’n drwch o adeiladau tal a all effeithio ar dderbyn signalau radio yng nghanol dinasoedd. Fodd bynnag, mae symud i drefniant lle mae gwahanol drothwyon yn berthnasol mewn gwahanol

[160] Phonic FM/ ExeDab, t.1.
[161] Radio Caroline, tt.4-5.
[162] Ofcom, 2025. Trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach - nodiadau cyfarwyddyd i ymgeiswyr a thrwyddedeion
[163] Rydym yn ystyried i ba raddau y byddai addasiad arfaethedig i gynllun technegol amlblecs yn arwain at newidiadau yn lefel yr ymyriant ag amlblecsau eraill, a’r gorgyffwrdd rhwng darpariaethau, yn ogystal â’r effaith y gallai ardaloedd sydd wedi cael darpariaeth ychwanegol neu sydd wedi colli darpariaeth ei chael ar wrandawyr.
[164] Ofcom, 2019. Datganiad:Trwyddedu DAB ar raddfa fach – sut bydd Ofcom yn defnyddio ei swyddogaethau newydd

ardaloedd yn gymhleth a bydd angen ei ystyried ymhellach. Felly, mae'n anymarferol i ni gyflwyno trothwy cynllunio amgen o fewn cwmpas y Datganiad hwn sy'n cwblhau ein hymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer trwyddedu radio darlledu.

3.169 Er nad ydym yn cynnig newid y trothwy cynllunio, mewn nifer o sefyllfaoedd gall gweithredwyr amlblecsau geisio gwella'r ddarpariaeth er mwyn darparu cryfderau maes uwch yn eu hardaloedd trwyddedig drwy'r llwybr arferol ar gyfer gwneud cais am newid darpariaeth ar ôl lansio. Bydd yr hyblygrwydd ychwanegol rydym yn ei gyflwyno (fel y nodir ym mharagraffau 3.124 i 3.129), o ran gorgyffwrdd ag amlblecsau masnachol lleol, hefyd yn cynyddu'r sgôp am welliannau i ddarpariaeth mewn achosion lle rydym o'r farn y byddai glynu'n gaeth wrth y terfyn uchaf o 40% yn arwain at gyfyngiad anghymesur ar yr amlblecs ar raddfa fach.

3.170 Wrth symud ymlaen, byddwn yn monitro a yw'r hyblygrwydd cynyddol mewn perthynas â'r terfyn uchaf o 40% yn rhoi digon o ryddid i drwyddedeion gynyddu lefelau signal yn yr amgylcheddau hynny a fyddai'n elwa o signalau cryfach.

3.171 Rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr yn galw am ddyrannu mwy o sbectrwm i DAB, gan nodi bod chwe bloc amledd ychwanegol wedi cael eu darparu'n benodol i'w defnyddio gan SSDAB pan ddechreuodd y rhaglen drwyddedu ar gyfer yr amlblecsau hyn yn 2020.[165] Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth gyfredol gref (o safbwynt galw am sbectrwm na phrinder sbectrwm) y dylid dyrannu sbectrwm VHF ychwanegol i wasanaethau DAB. Rydym hefyd o'r farn bod modd diwallu'r blaenoriaethau trwyddedu rydym wedi penderfynu arnynt ar gyfer DAB drwy ddyraniadau sbectrwm presennol (gan nodi bod argaeledd sbectrwm yn un o nifer o gyfyngiadau ar ein gallu i drwyddedu amlblecsau DAB newydd). Mae ein safbwynt ar flaenoriaethu trwyddedu amlblecs DAB lleol ychwanegol yn benodol wedi'i nodi ym mharagraffau 3.140 i 3.142 y Datganiad hwn. Yn yr un modd, ar hyn o bryd nid ydym yn cynnig caniatáu defnydd eithriadol o sbectrwm PMSE ar gyfer gwasanaethau DAB am y rhesymau a nodir uchod

3.172 Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gadw llygad ar yr holl ddefnydd o sbectrwm DAB a'r galw sy'n dod i'r amlwg, ac fel bob amser, mae Ofcom yn parhau i allu ystyried ailddyrannu sbectrwm os oes tystiolaeth gref bod angen gwneud hynny. Wrth wneud hynny, byddem yn pwyso a mesur unrhyw fanteision ailddyrannu yn ogystal â'r costau (fel yr angen i ddefnyddwyr sbectrwm presennol symud i amleddau newydd os nad oes modd rhannu). Byddai unrhyw waith yn y dyfodol i ailddyrannu sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio gan wasanaethau eraill yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

3.173 O ran addasu'r cynllun amledd SSDAB, rydym yn cydnabod y gallai fod yn dechnegol bosibl gwella effeithlonrwydd y defnydd o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau SSDAB sydd eisoes yn bodoli a'r rhai sydd heb eu lansio eto drwy ailgynllunio'r amleddau a ddyrennir i rai amlblecsau. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai arbedion effeithlonrwydd o'r fath yn fach o'u cymharu â'r gost a'r tarfu ar weithredwyr presennol pe bai Ofcom yn gofyn am newid amleddau. Fodd bynnag, rydym yn parhau i adolygu dyraniadau amledd ac, fel yr adlewyrchir yn ein penderfyniad, byddwn yn ceisio dyrannu amleddau ar gyfer amlblecsau newydd ar raddfa fach sy'n cynrychioli'r defnydd mwyaf effeithlon, ac sy'n gwneud yn fawr o gyfleoedd yn y cynllun sbectrwm cyffredinol.

3.174 Mae materion sy'n ymwneud â newidiadau i systemau rheoli sbectrwm a thrwyddedu Ofcom y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Serch hynny, mae holl feini prawf cynllunio technegol

---

[165] Blociau amledd 7D, 8A, 8B, 9A, 9B, a 9C o Fand III VHF, is-fand 2. Ofcom, 2020. [Datganiad:Trwyddedu DAB ar raddfa fach – sut bydd Ofcom yn defnyddio ei swyddogaethau newydd.]

darpariaeth Ofcom ar gyfer gwasanaethau radio darlledu ar gael i'r cyhoedd, ac nid ydym yn cytuno bod ein tybiaethau rheoli sbectrwm yn ffafrio mathau penodol o orsafoedd dros rai eraill. Mewn ymateb i gais Nation Broadcasting am archwiliad llawn o'r sbectrwm, mae argaeledd sbectrwm ar gyfer gwasanaeth FM neu DAB newydd yn dibynnu i raddau helaeth ar nodweddion y gwasanaeth arfaethedig hwnnw. Er enghraifft, mewn lleoliad penodol efallai y byddai'n bosibl adnabod sbectrwm i ddarparu ar gyfer Gorsaf Radio Gymunedol pŵer isel neu amlblecs SSDAB, ond byddai rhwydwaith DAB neu orsaf pŵer uwch yn achosi ymyriant annerbyniol yn yr un lleoliad. O ystyried y nifer uchel o senarios y byddai angen eu modelu, nid ydym yn credu y byddai manteision archwiliad cynhwysfawr o'r sbectrwm yn cyfiawnhau'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen i'w gyflawni.

3.175 Rydym wedi nodi'r pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr ynghylch capasiti, deiliadaeth ac ansawdd technegol amlblecs DAB. Nid oes gan Ofcom unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno rheoliadau ychwanegol ym maes cyfraddau didau amlblecs, fformatau technegol ar gyfer dolenni amgodio neu ddosbarthu gwasanaethau, nac ansawdd cyffredinol gwasanaethau SSDAB (a nodwn yma fod y ddeddfwriaeth a oedd yn galluogi Ofcom i drwyddedu gwasanaethau SSDAB yn benodol yn mynnu bod y signalau sy'n cludo'r gwasanaethau hynny yn cyrraedd 'safon resymol o ran ansawdd technegol': cymherir hyn â gwasanaethau DAB cenedlaethol a lleol sy'n gorfod cyrraedd 'safonau uchel' o ran ansawdd technegol).

3.176 Gan fod disgwyl i weithredwyr amlblecs beidio â gweithredu mewn ffordd sy'n atal cystadleuaeth deg ac effeithiol, os yw rhanddeiliaid yn credu bod gweithredwr amlblecs penodol yn cymryd rhan mewn arferion gwrthgystadleuol megis dal capasiti amlblecs yn ôl yn artiffisial o'r farchnad, gallai Ofcom ystyried unrhyw gŵyn ffurfiol a godir ynghylch y materion hyn.

3.177 Rydym yn cydnabod sylwadau sy'n ymwneud ag Ymyriant Sianeli Cyfagos ('ACI') DAB ac yn nodi bod trwyddedeion DAB masnachol ac ar raddfa fach yn rhwym wrth yr un gofynion o ran rheoli a lliniaru materion ACI. Cafodd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2012 y cyfeiriodd Bauer ato ei ddisodli gan y Cytundeb Fframwaith ar Ehangu DAB Lleol a oedd yn nodi rhwymedigaethau ar wahanol bartïon i ehangu darpariaeth amlblecsau DAB lleol i sicrhau cyfatebiaeth â darpariaeth FM radio masnachol.[166] Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi ACI fel un o'r materion y dylai Grŵp Technegol a sefydlwyd i gefnogi'r rhaglen roi sylw iddo, a gwnaed hyn mewn ffordd sy'n gyson â'r dull gweithredu y cytunwyd arno gan y diwydiant ar y pryd.

3.178 Mae polisi Ofcom ar ACI wedi cael ei fireinio dros amser, gydag ymgynghoriad adeg pob newid. Mae'r polisi yr un mor berthnasol i bob un o drwyddedeion DAB, ac mae wedi'i nodi yn ein canllawiau polisi technegol ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB. [167]

3.179 ✂[168]

3.180 Ymdrinnir â safbwynt Ofcom ar ein blaenoriaethau ar gyfer band AM ym mharagraffau 3.68 i 3.75 y Datganiad hwn. Roedd ein hymgynghoriad yn ymwneud yn benodol â'r blaenoriaethau hyn ar gyfer trwyddedu radio darlledu ac felly mae'r cwestiwn o ailddyrannu amleddau radio AM at ddibenion eraill y tu allan i gwmpas y broses bresennol. Fodd bynnag, cyn caniatáu defnydd nad yw'n ymwneud â darlledu ar gyfer sbectrwm AM, byddai angen i Ofcom benderfynu ar broses effeithiol ar gyfer trwyddedu'r sbectrwm ac yna rhoi fframwaith addas ar

[166] GOV.UK, 2015. Local DAB network expansion 2015-16 - GOV.UK.
[167] Ofcom, 2023. Canllawiau polisi technegol ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB.
[168] ✂

waith. Byddai unrhyw waith yn y maes hwn yn effeithio ar allu Ofcom i ymateb i rannau eraill o'n gwaith sbectrwm. Er bod Ofcom yn gyffredinol yn agored i ystyried ffyrdd eraill o ddefnyddio sbectrwm, dim ond un rhanddeiliad sydd wedi dangos diddordeb hyd yma. Felly, nid ydym o'r farn y byddai ailddyrannu amledd o fewn bandiau AM yn ffordd effeithiol o ymdrin â'n blaenoriaethau rheoli sbectrwm ar hyn o bryd.

3.181 Nodwn y safbwyntiau a nodwyd gan ymatebwyr ynghylch llwyfannau darparu amgen ar gyfer gwasanaethau radio. Fodd bynnag, mae'r materion hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad presennol, ond fel y nodwyd ym mharagraff 3.199 rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod unrhyw newid yn y dyfodol i lwyfannau eraill yn ystyried darpariaeth, gwydnwch ac anghenion cynulleidfaoedd.

3.182 Yn fwy cyffredinol, fel y nodwyd uchod, mae Adolygiad Radio presennol Llywodraeth y DU yn ystyried senarios i'r dyfodol o ran sut mae gwrandawyr yn defnyddio cynnwys radio a sain yn y DU, a sut y gallai'r rhain effeithio ar strategaethau dosbarthu yn y dyfodol ar gyfer diwydiant radio'r DU ac ar argaeledd gwasanaethau radio'r DU ar bob llwyfan.

# Eglurder polisi a fframwaith

## Yr hyn a ddywedon ni

3.183 Yn ein hymgynghoriad fe wnaethom gynnig blaenoriaethu amrywiaeth o weithgareddau trwyddedu. Nodwyd y byddwn yn cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad terfynol ynghylch y gweithgareddau trwyddedu y byddwn yn eu blaenoriaethu. Ni wnaethom roi unrhyw fanylion penodol am yr amserlenni ar gyfer y gwahanol fathau o waith neu brosesau.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.184 Gofynnodd ymatebwyr i Ofcom roi mwy o eglurder ynghylch gweithredu, blaenoriaethu ac adolygu.[169] Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen am dryloywder a rhagweladwyedd fel bod darlledwyr a gweithredwyr amlblecsau yn gallu cynllunio buddsoddi ac uwchraddio'n hyderus.[170]

3.185 Gofynnodd Bauer i Ofcom gyhoeddi amserlenni a safonau clir ar gyfer prosesu amrywiadau i drwyddedau a newidiadau technegol DAB, gan nodi y byddai hyn yn eu helpu nhw ac eraill i gynllunio gwaith uwchraddio.[171] Dywedodd Radiocentre rhywbeth tebyg, gan ddweud y dylai Ofcom gyhoeddi amserlenni a safonau gwasanaeth clir ar gyfer amrywiadau i drwyddedau a newidiadau technegol DAB.[172] Dywedodd Dee Radio Group hefyd y dylai'r fersiwn derfynol gydnabod yn gliriach yr angen i weithredu'n amserol ac yn dryloyw,[173] a chwestiynodd Radio Sangam Communities Together yr amserlenni ar gyfer gweithredu.[174]

3.186 Gofynnodd Leicester Digital Partnership am broses gliriach a mwy cyfyngedig o ran amser ar gyfer ceisiadau am newid technegol SSDAB yn benodol a dywedodd y dylai Ofcom gyhoeddi fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau o'r fath.[175] Gofynnodd High Peak One Digital hefyd i Ofcom brosesu ceisiadau am newid technegol SSDAB ar fwy o frys, "yn enwedig pan fydd hyfywedd yn y fantol". Eglurodd fod perygl i wasanaethau fethu os nad yw ceisiadau'n cael eu prosesu'n brydlon.[176]

[169] Bauer Media Audio UK, t.4; Radiocentre, t.3; Dee Radio Group, t.5; Sangam Radio, t.1.
[170] Leicester Digital Partnership, t.13; High Peak One Digital, t.1; Dee Radio Group, t.5.
[171] Bauer Media Audio UK, t.4.
[172] Radiocentre, t.3.
[173] Dee Radio Group, t.5.
[174] Sangam Radio, t.1.
[175] Leicester Digital Partnership, t.13.
[176] High Peak One Digital, t.1.

3.187 Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai Ofcom yn blaenoriaethu rhwng gwahanol opsiynau trwyddedu.[177] Dywedodd Dee Radio fod angen eglurhad pellach ynghylch sut y byddai Ofcom yn blaenoriaethu rhwng ymestyn ardaloedd SSDAB presennol, creu ardaloedd SSDAB newydd, neu drwyddedu gwasanaethau DAB lleol newydd.[178] Dywedodd y dylai Ofcom ffafrio opsiynau sy'n gwella darpariaeth, yn cefnogi lluosogrwydd, ac yn helpu gweithredwyr llai.[179] Awgrymodd Leicester Digital Partnership y dylai Ofcom gyhoeddi meini prawf ynghylch sut rydym yn penderfynu 'a yw'n well mynd i'r afael ag ardal nad yw'n cael ei gwasanaethu neu ardal nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol drwy ymestyn amlblecs SSDAB presennol, hysbysebu amlblecs SSDAB newydd, neu hysbysebu amlblecs DAB Lleol.'[180]

3.188 Soniodd nifer o ymatebwyr am yr angen i fonitro a diweddaru blaenoriaethau'n barhaus wrth i'r farchnad ddal ati i ddatblygu. Dywedodd Leicester Digital Partnership y dylai Ofcom adolygu'r strategaeth dros amser i sicrhau nad yw'n niweidio cynaliadwyedd y sector DAB ar raddfa fach.[181] Dywedodd Maxxwave fod dadansoddiad fforddiadwyedd Ofcom ar gyfer DAB wedi dyddio ac y dylid ei adnewyddu er mwyn adlewyrchu'r pwysau costau byw presennol.[182] Dywedodd Phonic FM fod y blaenoriaethau'n ymddangos fel petaent yn briodol ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig ond bod yn rhaid iddynt addasu wrth i dechnoleg newydd ddod i'r amlwg.[183] Nododd Radiocentre y dylai Ofcom barhau i adolygu ei ddull trwyddedu, gan warchod rhag canlyniadau anfwriadol a allai danseilio twf, a pharhau i gyd-fynd ag Adolygiad Sain a Radio Digidol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.[184] Nododd Arqiva hefyd fod angen ystyried canlyniadau Adolygiad Sain a Radio'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.[185]

3.189 Tynnodd Arqiva sylw hefyd at y ffaith nad yw'r ymgynghoriad yn cyfeirio'n benodol at welliannau i ddarpariaeth nac estyniadau ar gyfer amlblecsau DAB cenedlaethol a lleol.[186] Er eu bod yn nodi y gallai ein cynnig i barhau i gefnogi rhaglenni trwyddedu darlledu parhaus fod yn berthnasol i'r gweithgareddau hyn, "mae diffyg cyfeiriad penodol yn creu rhywfaint o ansicrwydd - yn enwedig o ystyried bod mathau eraill o drwyddedau (yn enwedig analog) yn cael eu henwi'n benodol."[187]

3.190 Tynnodd ymatebydd arall sylw at yr angen i sylfaen dystiolaeth a dull polisi Ofcom barhau i fod yn gyfredol.[188] Dywedodd Better Media y dylai Ofcom wella ei gapasiti ac adnewyddu ei sylfaen dystiolaeth, yn enwedig er mwyn deall effeithiau lleol a chydraddoldeb.[189] Nododd Better Media hefyd 'y byddai dadansoddiad Ofcom hefyd yn elwa o dalu mwy o sylw i ryngweithio rhwng llwyfannau. Dywedodd y gallai 'tabl yn ôl math o drwydded sy'n trin pob llwybr ar ei ben ei hun fethu ag adlewyrchu'r rhyngweithiadau hynny yn llwyr'.[190]

---

177 Maxxwave Ltd, t.3; Dee Radio Group, t.5; Leicester Digital Partnership CIC, t.5.
178 Dee Radio Group, t.5.
179 Dee Radio Group, t.5.
180 Leicester Digital Partnership CIC, t.5.
181 Leicester Digital Partnership CIC, t.12.
182 Maxxwave Ltd, t.11.
183 Phonic FM, t.1.
184 Radiocentre, tt.3-4.
185 Arqiva, t.3.
186 Arqiva, t.2.
187 Arqiva, t.2.
188 Better Media, t.6.
189 Better Media, t.7.
190 Better Media, t.7.

### Ein hymateb

3.191 Nodwn sylwadau ymatebwyr ynghylch yr angen i nodi amserlenni gweithredu clir. Rydym wedi nodi uchod y broses ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau a rhai amserlenni cychwynnol. Fodd bynnag, er mwyn darparu rhagor o fanylion mewn rhai meysydd, megis trwyddedu analog cymunedol, bydd angen inni ddeall maint y galw'n well. Yna byddwn yn gallu nodi amserlenni manylach.

3.192 Gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch sut y byddwn yn blaenoriaethu rhwng gwahanol opsiynau. Fel y nodir uchod, ochr yn ochr â'n gwaith trwyddedu parhaus, byddwn yn blaenoriaethu'r canlynol:

a) ystyried rowndiau trwyddedu ar gyfer radio analog cymunedol (a bydd Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad hwn); ac
b) ystyried ceisiadau i wella neu ymestyn darpariaeth amlblecsau SSDAB.

Rydym hefyd yn nodi'n fanwl sut rydym yn bwriadu blaenoriaethu rowndiau trwyddedu radio analog cymunedol.

3.193 O ran ceisiadau am newid technegol SSDAB, mae Ofcom bob amser yn ymwybodol o amgylchiadau pob cais, ac rydym yn ceisio prosesu ceisiadau cyn gynted â phosibl, yn enwedig pan fydd amheuaeth ynghylch hyfywedd gwasanaeth. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymgynghori'n gyhoeddus ar rai ceisiadau am newid technegol, a gall hynny ymestyn yr amserlenni'n sylweddol. Mae ein Nodiadau Cyfarwyddyd[191] ar gyfer trwyddedeion amlblecs ar raddfa fach yn nodi ein gweithdrefn a'n prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau am newid technegol SSDAB.

3.194 Nododd ymatebwyr y byddai angen adolygu a diweddaru'r polisi hwn yng ngoleuni'r farchnad sy'n newid ac, yn benodol, Adolygiad Radio'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Datganiad hwn yn nodi sut y byddwn yn rheoli ein blaenoriaethau trwyddedu yn y tymor byr i'r tymor canolig. Rydym yn cydnabod newidiadau yn y farchnad ac mae'r gwaith o ddatblygu polisi Llywodraeth y DU yn debygol o effeithio ar ein gwaith yn y dyfodol, felly nid ydym wedi ystyried unrhyw beth sy'n fwy hirdymor. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu priodoldeb ein blaenoriaethau yng ngoleuni unrhyw newidiadau.

3.195 O ran newidiadau i ddarpariaeth DAB genedlaethol a lleol, mae gweithredwyr yr amlblecsau hyn yn rhydd i ymestyn neu wella eu rhwydweithiau yn eu hardaloedd trwyddedig presennol ar unrhyw adeg yn amodol ar brosesau cymeradwyo technegol arferol (gan gynnwys cydlynu amledd rhyngwladol a'r broses arferol o reoli Ymyriant Sianeli Cyfagos). Felly, nid oes angen i welliannau o'r fath i'r rhwydwaith gael eu cymeradwyo'n benodol gan Ofcom o safbwynt trwyddedu'r Ddeddf Darlledu, a gallwn gadarnhau y bydd y trefniadau presennol hyn yn parhau.

3.196 Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd monitro effaith ein blaenoriaethau ar y farchnad. Bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r farchnad sain, lle bo hynny'n briodol, drwy ein hymchwil a hefyd drwy fonitro galw trwyddedu. Mae Ofcom yn mynd ati'n barhaus i adolygu'r wybodaeth mae'n ei chasglu er mwyn cyfrannu at ein penderfyniadau, a bydd yn parhau i wneud hyn.

## Ymatebion y tu allan i gwmpas ein cynigion

3.197 Rhannodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau a safbwyntiau yn ogystal â mynegi pryderon a oedd yn mynd i'r afael â materion sydd y tu allan i gwmpas cynigion yr ymgynghoriad.

---

[191] Ofcom, 2025. [Trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach - Nodiadau cyfarwyddyd i ymgeiswyr a thrwyddedeion.]

3.198 Cawsom nifer o geisiadau penodol i newid trwyddedau. Er nad ydym yn gallu ymateb yn uniongyrchol i'r ceisiadau hynny fel rhan o'r Datganiad hwn, rydym yn annog ymatebwyr i gyfeirio at ein hymatebion sy'n canolbwyntio ar weithgarwch trwyddedu penodol yn adrannau perthnasol y Datganiad hwn. Dylai unrhyw drwyddedeion presennol sy'n dymuno gwneud cais i newid eu trwydded wneud hynny drwy'r nodiadau cyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddwyd.

3.199 Rhannodd nifer o ymatebwyr eu safbwyntiau ar yr hyn a gyflwynwyd fel cynnig "Llywodraeth y DU i ddiffodd yn 2030" mewn perthynas â radio FM.[192] Mewn gwirionedd, nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i roi'r gorau i ddarlledu radio FM, er bod Adolygiad Radio Llywodraeth y DU yn ystyried (ymysg pethau eraill) a ddylid rheoli'r broses o symud oddi wrth FM yn y 2030au ac, os felly, dros ba gyfnod. Er bod hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cydnabod cryfder y teimladau yn y maes hwn ac yn deall y goblygiadau posibl y mae'r ymatebwyr yn credu y gallai hyn eu cael ar ddarlledu radio. Fodd bynnag, mae hwn yn waith parhaus sy'n cael ei wneud gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac, o'r herwydd, byddwn yn aros i'r Adolygiad hwnnw gael ei gyhoeddi cyn rhoi sylwadau ar ganlyniadau a allai ddeillio o'r gwaith hwnnw, lle bo hynny'n briodol.

3.200 Dywedodd Lewis Cropley y dylid rhoi trwyddedau darlledu teledu a radio amatur ar gyfer gwahanol fandiau amledd fel bod modd trosglwyddo gwybodaeth mewn cyfnodau o drychineb neu argyfwng cenedlaethol.[193] Mae'r cynigion hyn y tu allan i gwmpas y broses ymgynghori hon, a'n fframwaith trwyddedu presennol. Fodd bynnag, mae'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol ar gyfer gwasanaethau darlledu radio yn cynnwys gofynion cymhwysedd clir ar gyfer dal trwyddedau darlledu, yn ogystal â gofynion parhad gwasanaeth. Er y gallai Adolygiad Radio presennol y Llywodraeth a'i Phapur Gwyrdd, Watch this space: *a new strategic direction for UK media*, arwain at ddiwygiadau i ddeddfwriaeth darlledu, nid yw'n briodol i Ofcom awgrymu beth allai cwmpas y newidiadau hynny ei gynnwys ar hyn o bryd.

[192] Lawrence Galkoff Associations Ltd, t.6; ✂; Nation Broadcasting, t.2; Caithness FM, t.1; ✂
[193] Lewis Cropley (DAEPAC), t.1-2.

# A1. Dyletswyddau a phwerau cyfreithiol

A1.1 Prif ddyletswydd Ofcom o ran cyflawni ei swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr (drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol). Yn anad dim, mae disgwyl i ni sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau, a sicrhau y cynhelir lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol, a sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm.[194]

A1.2 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thrwyddedu radio, mae'n rhaid i ni ystyried, ymysg pethau eraill: pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd; gwahanol anghenion a diddordebau pobl sy'n dymuno defnyddio'r sbectrwm; anghenion pobl ag anableddau, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel; barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol ac aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol; a gwahanol ddiddordebau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

A1.3 Ar ben hynny, wrth gyflawni ein dyletswydd i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, mae'n rhaid i ni ystyried, yn benodol, fuddiannau'r defnyddwyr hynny o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.[195]

A1.4 Os byddwn yn gweld bod unrhyw un o'n dyletswyddau cyffredinol yn gwrthdaro â'i gilydd mewn achos penodol, rhaid inni sicrhau bod y gwrthdaro'n cael ei ddatrys yn y ffordd orau yn ein barn ni yn yr amgylchiadau.[196]

A1.5 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried ym mhob achos yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.[197]

A1.6 Wrth gyflawni ein swyddogaethau sbectrwm, mae gennym ddyletswydd o dan adran 3 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 i ystyried yn benodol: (i) i ba raddau y mae'r sbectrwm ar gael i'w ddefnyddio neu i'w ddefnyddio ymhellach ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y galw am ddefnydd o'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr a (iii) y galw sy'n debygol o godi yn y dyfodol ar gyfer defnyddio'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr. Mae gennym hefyd ddyletswydd, yn benodol, i ystyried pa mor ddymunol ydy hyrwyddo: (i) rheoli a defnyddio'r sbectrwm yn effeithlon ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y manteision economaidd a'r manteision eraill a allai godi o ddefnyddio telegraffiaeth ddi-wifr, (iii) datblygu gwasanaethau arloesol a (iv) cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau electronig.

A1.7 Hefyd, yn unol ag adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015, mae'n rhaid i ni ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ein swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau: a) bod camau rheoleiddio'n cael eu cymryd dim ond

---

[194] Adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003
[195] Adran 3(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[196] Adran 3(7) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[197] Adran 3(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

pan fydd eu hangen; a b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur. Mae canllawiau statudol Llywodraeth y DU ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod arloesedd a chystadleuaeth ymysg y ffactorau sy’n sbarduno twf economaidd.

# A2. Asesiadau o'r effaith

## Asesu effaith ein penderfyniadau

A2.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol rhoi cynigion ar waith a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

A2.2 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn rhan o'r gwaith o lunio polisïau da ac felly rydym yn disgwyl eu cynnal mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni wneud y penderfyniadau hynny. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi'u gwneud a pham ein bod yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

A2.3 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A2.4 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ('Deddf 1998') yn gosod dyletswydd ar wahân ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyladwy i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn esbonio sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

A2.5 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).

A2.6 Yn benodol, mae adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) pa mor agored i niwed yw plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;

b) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; a hefyd

c) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

# Asesiadau o'r effaith

## Yr hyn a ddywedon ni

A2.7 Yn ein hymgynghoriad fe wnaethom nodi nifer o egwyddorion allweddol roeddem wedi'u nodi wrth gynnig ein dull gweithredu strategol ar gyfer trwyddedu radio darlledu yn y tymor byr i'r tymor canolig, gan eu gosod yng nghyd-destun tirwedd radio sy'n esblygu'n gyflym ac adnoddau sbectrwm cyfyngedig. Fel yr amlinellwyd uchod, fe wnaethom gynnig blaenoriaethu gweithgareddau trwyddedu yn y dyfodol sy'n cefnogi twf ac yn darparu'r manteision gorau posibl i wrandawyr. Roeddem ni eisiau cynnal y gefnogaeth i wasanaethau presennol hefyd a chynnal hyblygrwydd priodol o fewn ein gofynion rheoleiddio. Fe wnaethom ddangos fod llai o ffocws ar analog newydd a rhai mathau eraill o drwyddedau lle mae cynulleidfaoedd yn gostwng neu lle mae sbectrwm yn gyfyngedig.

A2.8 Fe wnaethom integreiddio ein hasesiad dros dro o effaith debygol ein cynigion yn adrannau 3 a 4 o'n hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026. Yn benodol, yn adran 3 o'n dogfen ymgynghori, fe wnaethom nodi ein hystyriaethau ynghylch: ein hymrwymiadau presennol (fel y nodir yn ein Cynllun Gwaith 2025/26 a'n Cynllun Gwaith Arfaethedig 2026/27); y dirwedd sy'n newid ar gyfer radio darlledu yn y DU; tueddiadau cynulleidfaoedd; argaeledd sbectrwm; newidiadau yn y fframwaith cyfreithiol (ar ôl rhoi Deddf Cyfryngau 2024 ar waith); ac ystyriaethau ynghylch y polisi terfyn uchaf o 40%. Fe wnaethom fwydo'r ystyriaethau hyn i mewn i'r dull gweithredu strategol a'r rhesymeg arfaethedig a amlinellwyd yn adran 4 ein dogfen ymgynghori.

A2.9 Fe wnaethom ystyried pob un o'r ffactorau hyn wrth ystyried ein cynigion i asesu'r tebygolrwydd y byddent yn hyrwyddo twf ac yn dod â manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i gymunedau ar yr un pryd â sicrhau cynaliadwyedd ar draws y sector a'r effaith ar randdeiliaid yn y diwydiant. Er ein bod wedi nodi rhai effeithiau negyddol posibl (o ran y sectorau a'r mathau o drwyddedu nad oeddem yn cynnig eu blaenoriaethu), roeddem o'r farn bod dyluniad ein cynigion yn lleihau'r rhain a bod y manteision yn drech na nhw.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym

A2.10 Roedd nifer o randdeiliaid yn cefnogi ein hasesiad ar effaith ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig yn gyffredinol,[198] gyda'r ✂ yn awgrymu y bydd y blaenoriaethau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y sector darlledu a chynulleidfaoedd, gan gryfhau amrywiaeth a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.[199]

A2.11 Fodd bynnag, er bod ymatebwyr yn cefnogi ein hasesiad effaith yn gyffredinol ac yn cydnabod y manteision posibl i gymunedau, roeddent hefyd wedi nodi nifer o ystyriaethau ychwanegol a oedd yn ymwneud â gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i ystyried yr effeithiau y gallai rhagor o drwyddedu DAB lleol eu cael ar gynaliadwyedd SSDAB[200] ac o ran "gweithredu amserol a thryloyw"[201]

A2.12 Dywedodd Affinity Media y gallai symud i "ddull trwyddedu symlach sydd wedi'i flaenoriaethu" arwain at lai o ffocws ar wasanaethau analog a gwasanaethau graddfa lai a allai effeithio ar ddarpariaeth leol. Nodwyd hefyd efallai na fyddai'r asesiad yn cofnodi amrywiadau rhanbarthol[202] a bod angen ystyried lle gallai ehangu SSDAB o bosibl erydu'r gwrando a'r refeniw ar gyfer amlblecsau radio lleol presennol.[203]

---

[198] ✂, t.3; Dee Radio Group, t.5; Local DAB Association, t.5; MuxCo Ltd, t.2; Affinity Media NE CIC, t.6; SWU.FM, t.2.; ✂

[199] ✂

[200] Dee Radio Group, t.5; Local DAB Association, t.5; MuxCo, t.2.

[201] Local DAB Association, t.5.

[202] Affinity Media NE CIC, t.7.

[203] MuxCo Ltd, t.2.

A2.13 Nododd AS ym mharagraff 3.26 fod Radiocentre wedi gofyn i Ofcom ystyried effaith gwasanaethau radio cymunedol sy'n gorgyffwrdd ac yn cystadlu â gwasanaethau radio masnachol bach.[204]

A2.14 Yn benodol, roedd Leicester Digital Partnership yn dweud nad yw'r dadansoddiad yn adlewyrchu'r rhyngweithio masnachol rhwng DAB lleol a SSDAB yn ddigonol ac y gallai ehangu DAB lleol danseilio'r amlblecsau SSDAB presennol. Roeddent yn awgrymu y gallai hyn "gynyddu'r pwysau ar gyfraddau cludo" ar gyfer gwasanaethau eraill. [205]

A2.15 Nododd Station House Media Unit hefyd y byddai cyfyngiadau rheoleiddiol ar SSDAB, yn enwedig y rheol 40%, yn atal y manteision a nodwyd yn ein dadansoddiad rhag cael eu gwireddu.[206]

A2.16 Yn y cyfamser, nododd Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU fod yr "asesiad effaith wedi methu â chyflwyno'r achos dros hirhoedledd FM", sydd yno yn eu barn nhw.

A2.17 Roedd Better Media o'r farn bod yr asesiad effaith yn rhy ffafriol i gynigion Ofcom.[207] Dadleuodd nad oedd yr asesiad yn ystyried gallu sefydliadol Ofcom yn ddigonol, gan nodi ei bod yn ymddangos mai cyfyngiadau adnoddau a gweinyddol oedd yn sbarduno'r blaenoriaethau trwyddedu. Roedd yn credu y dylid gwella capasiti rheoleiddio drwy ddiwygio systemau yn hytrach na llywio blaenoriaethau trwyddedu mwy ceidwadol.[208]

## Ein hymateb

A2.18 Ar ôl adolygu ein blaenoriaethau ac ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu cadarnhau'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026 am y rhesymau a nodir yn y ddogfen uchod.

A2.19 Serch hynny, rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'n cynigion ymgynghori mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys penderfynu:

a) cyhoeddi Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer trwyddedu rhagor o radio cymunedol analog; a

b) peidio â blaenoriaethu'r gwaith o hysbysebu trwyddedau amlblecs DAB lleol newydd.

A2.20 Rydym wedi nodi ein hasesiad terfynol o effeithiau'r newidiadau penodol hyn, yn ogystal â'r blaenoriaethau ehangach rydym wedi cytuno arnynt, yn yr adrannau isod.

A2.21 Ar y cyfan, ar ôl ystyried yr effaith y gall ein blaenoriaethau arfaethedig ei chael ar y diwydiant, ac yn seiliedig ar ystyriaeth o'r effeithiau fel y'u nodwyd yn adran 3, rydym o'r farn y byddai ein dull gweithredu yn hyrwyddo twf yn y sector ac yn dod â manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i gymunedau, ar yr un pryd â sicrhau cynaliadwyedd ar draws y sector a bydd yn cael effaith gadarnhaol a niwtral yn gyffredinol. Rydym wedi ceisio lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl. Felly, mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â'n dyletswyddau, gan gynnwys annog buddsoddiad ac arloesedd, hyrwyddo twf economaidd a sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

[204] Radiocentre Ltd, t.2.
[205] Leicester Digital Partnership CIC, t.12.
[206] Station House Media Ltd, t.3.
[207] Better Media, t.8.
[208] Better Media, t.8.

### Asesiad o'n penderfyniadau

## Radio Analog

3.201 Bydd ein penderfyniad i barhau i flaenoriaethu ceisiadau gan drwyddedeion analog cymunedol presennol ar gyfer newidiadau technegol, gan gynnwys gwella ac ymestyn darpariaeth, a dyfarnu trwyddedau radio cymunedol analog newydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd a thrwyddedeion radio cymunedol presennol (a newydd) fel y nodir ym mharagraffau 3.32 i 3.35. Rydym yn cydnabod y gallai fod rhai achosion lle gallai fod effaith negyddol ar drwyddedeion masnachol lleol o ganlyniad i fwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd mewn ardaloedd lle rhoddir trwyddedau newydd neu estyniadau i ddarpariaeth. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd hyn, yn gyffredinol, yn cael ei wrthbwyso gan y budd tebygol cyffredinol i gynulleidfaoedd yn sgil argaeledd gwasanaethau radio cymunedol newydd neu estynedig. Fel y nodir ym mharagraffau 3.52 i 3.54, byddwn yn cyhoeddi fersiynau wedi'u golygu o geisiadau cyn rhoi trwyddedau newydd neu estyniadau fel bod y trwyddedeion presennol yn gallu cyflwyno sylwadau perthnasol penodol yn ystod y cam hwn os ydynt yn dymuno. Hefyd mae cyfyngiadau o ran cyllid a therfynau ymestyn sy'n berthnasol i wasanaethau radio cymunedol sy'n gorgyffwrdd â thrwyddedau radio masnachol perthnasol.

3.202 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.48, bydd cyhoeddi galwad am Ddatganiad o Ddiddordeb ffurfiol ar gyfer rhagor o drwyddedu radio cymunedol analog yn hytrach na chyhoeddi Gwahoddiad i Ymgeisio ar unwaith neu gael proses drwyddedu dreigl ac ad hoc, yn galluogi Ofcom i asesu'r galw am drwyddedau radio cymunedol cyn dechrau rownd trwyddedu ffurfiol. Bydd hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol oherwydd bydd yn caniatáu i ni dargedu gweithgarwch lle mae diddordeb amlwg ymysg rhanddeiliaid, cefnogi'r gwaith o reoli sbectrwm AM ac FM cyfyngedig, a chyflawni ein dyletswydd i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n gymesur, wedi'u targedu ac yn effeithlon.

3.203 Yn fwy cyffredinol, rydym o'r farn bod cefnogi gorsafoedd radio cymunedol analog yn hyrwyddo arloesedd a chystadleuaeth ac yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau radio yn parhau i fod ar gael ledled y DU. Maen nhw hefyd yn hybu twf – er enghraifft, mae estyniadau i ddarpariaeth yn helpu'r gorsafoedd radio presennol i dyfu, ac mae trwyddedau newydd, lle bo hynny'n gynaliadwy, yn helpu mentrau newydd i lansio a busnesau lleol i'w defnyddio i farchnata eu hunain. Yn y cyfamser, mae cefnogi radio cymunedol yn helpu i ddatblygu cronfa o dalent i helpu'r sector i dyfu yn ei gyfanrwydd.

3.204 O ystyried y galw isel am wasanaethau radio masnachol analog newydd a'r gostyngiad mewn gwrando analog, fel y nodir ym mharagraff 3.87, rydym o'r farn y bydd ein penderfyniad i barhau i gefnogi trwyddedau masnachol cyfredol ond peidio â darparu unrhyw gyfleoedd trwyddedu ar gyfer gwasanaethau radio masnachol lleol neu genedlaethol newydd ar FM neu AM yn y tymor byr i'r tymor canolig yn cael effaith niwtral fel estyniad i'r sefyllfa bresennol.

3.205 Rydym o'r farn bod y penderfyniadau hyn yn parhau i gyd-fynd â'n dyletswyddau, gan gynnwys annog buddsoddiad ac arloesedd, hyrwyddo twf economaidd a sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon a bydd yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral yn gyffredinol.

## Blaenoriaethau radio digidol DAB

3.206 Am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 3.97, 3.98 a 3.105 i 3.109, rydym o'r farn bod ein penderfyniad i hwyluso datblygiad pellach y sector SSDAB drwy alluogi gwelliannau ac estyniadau i ddarpariaeth a, lle bo hynny'n briodol, hysbysebu trwyddedau amlblecs

newydd, yn debygol o gael effaith gadarnhaol. Mae hyn am ein bod o'r farn y bydd yn debygol o helpu i wneud y canlynol: hyrwyddo twf economaidd; sicrhau defnydd effeithlon o'r sbectrwm; hyrwyddo cystadleuaeth yn y sector radio darlledu; annog lluosogrwydd o ddarparwyr gwasanaethau; a darparu mwy o ddewis o wasanaethau radio i wrandawyr.

3.207 O ran ein penderfyniad i fod yn fwy hyblyg yn ein dehongliad o'r 'terfyn uchaf o 40%' a eglurir ym mharagraffau 3.124 i 3.129, credwn y bydd y newid hwn mewn polisi yn helpu twf a chynaliadwyedd y sector SSDAB gan gadw'r gwahaniaeth presennol rhwng yr haenau DAB lleol a'r haenau DAB ar raddfa fach. Bydd yr olaf o'r rhain yn parhau i ddarparu cyfleoedd i orsafoedd ar lawr gwlad ddarlledu i ardaloedd daearyddol llai am ffioedd cludo fforddiadwy. Nid yw hyn wedi digwydd yn gyffredinol, a gwelwyd amlblecsau'n gwasanaethu ardaloedd llawer mwy. Rydym yn cydnabod bod potensial am effaith negyddol fach ar amlblecsau lleol o ganlyniad i fwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd mewn nifer fach o ardaloedd lle caniateir ymestyn darpariaeth dros 40%. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd hyn, yn gyffredinol, yn cael ei wrthbwyso gan y budd tebygol cyffredinol i gynulleidfaoedd yn sgil argaeledd gwasanaethau newydd neu estynedig. Rydym hefyd yn nodi ym mharagraff 3.128 uchod y bydd trwyddedeion yn cael cyfle i leisio pryderon cyn y caniateir estyniadau.

3.208 Mewn perthynas â'n penderfyniad i beidio â rhoi blaenoriaeth i hysbysebu trwyddedau amlblecs DAB lleol newydd, a amlinellir ym mharagraffau 3.140 i 3.142 uchod, rydym yn cydnabod y gallai hysbysebu amlblecsau lleol newydd ysgogi cystadleuaeth a thwf yn y sector radio masnachol, er y byddai nifer yr ardaloedd lle gellid hysbysebu amlblecsau o'r fath yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau sbectrwm. Fodd bynnag, ac ystyried yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad, rydym wedi dod i'r casgliad y gallai trwyddedu amlblecsau DAB lleol newydd ar yr adeg benodol hon danseilio cynaliadwyedd a thwf posibl y sector SSDAB cychwynnol ac felly'r manteision y gallai eu darparu.

3.209 Nodwn yr awgrym bod ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026 yn cynnwys ffocws cryf ar amser, llwyth gwaith a phwysau ciwio y gellid eu gwella drwy ddiwygio systemau. Rydym yn cydnabod y gallai rhywfaint o ddiwygiadau i systemau fod yn fanteisiol yn y tymor hwy. Fodd bynnag, efallai na fydd y rhain yn ymarferol i weithredu arnynt ar unwaith drwy gyfres o flaenoriaethau arfaethedig sydd â'r bwriad o fynd i'r afael â materion yn y tymor byr i'r tymor canolig yn unig. Felly, cytunwyd ar ein blaenoriaethau terfynol yng nghyd-destun cadw'r systemau gweinyddol presennol, er ein bod yn nodi'r awgrym ar gyfer gwella dros gyfnod hwy.

A2.22 Yn gyffredinol, rydym yn dod i'r casgliad y byddai unrhyw effeithiau posibl yn sgil ein penderfyniadau ynghylch pa weithgareddau trwyddedu radio darlledu i'w blaenoriaethu yn y tymor byr i'r tymor canolig yn debygol o fod yn niwtral neu'n gadarnhaol. Rydym o'r farn y byddai'r blaenoriaethau diwygiedig yn gadarnhaol ar gyfer twf a'u bod yn cyd-fynd â'n dyletswyddau i gefnogi'r sector radio a galluogi twf, buddsoddiad ac arloesedd.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A2.23 Mae Adran 149 o Ddeddf 2010 yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A2.24 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon, a nodir yn Neddf 1998. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A2.25 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn ystyried yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).

A2.26 Fe wnaethom gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o'n blaenoriaethau arfaethedig yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, ac rydym wedi ystyried yn ofalus a fydd y penderfyniadau a nodir gennym yn y Datganiad hwn yn cael effaith benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac yn dibynnu ar amgylchiadau personol unigolyn.

## Ein safbwynt yn yr ymgynghoriad

A2.27 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom nodi sut roeddem wedi ystyried ffactorau fel tueddiadau ac anghenion cynulleidfaoedd wrth gynnig ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu a'r effaith bosibl y byddai ein polisïau arfaethedig yn debygol o'i chael ar unigolion, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

A2.28 Nid oeddem yn credu y byddai'r dull polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig nac ar unrhyw grwpiau eraill o bobl, nac y byddai'n gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Yn wir, roeddem o'r farn y gallai arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol.

A2.29 Fe wnaethom gydnabod bod radio cymunedol yn darparu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pwysig drwy wasanaethu cymunedau lleiafrifol, sydd wedi'u tangynrychioli, ac sydd ar wasgar yn ddaearyddol.

A2.30 Roedd ein cynigion yn cefnogi SSDAB a radio analog gan ein bod yn deall bod manteision y gall pob un o'r rhain eu cynnig i grwpiau penodol. Yn benodol, gall radio analog ddod â manteision i gymunedau lleiafrifol penodol, fel yr henoed, grwpiau economaidd is, a rhai cymunedau gwledig.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

A2.31 Roedd nifer o randdeiliaid yn cytuno'n fras â'n hasesiadau effaith yn fwy cyffredinol.[209] Fodd bynnag, gofynnodd rhai ohonynt i ni roi ystyriaeth bellach i effaith bosibl ein cynigion ar ieithoedd

A2.32 Mynegodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol bryderon am y bwriad i ehangu DAB lleol gan nodi y "gallai hyn gael effaith niweidiol ar orsafoedd radio cymunedol ar amlblecsau SSDAB yn ogystal â'r amlblecsau SSDAB eu hunain".[210] Lleisiodd High Peak One Digital bryderon hefyd ynghylch y risg i weithredwyr SSDAB. Awgrymwyd y dylai'r asesiad effaith ystyried effaith "diffyg gweithredu rheoleiddiol ar weithredwyr presennol". [211]

A2.33 Roedd ymatebydd cyfrinachol ✂

A2.34 Roedd un ymatebydd wedi cwestiynu a oedd yr asesiad effaith yn tanamcangyfrif yr heriau o wasanaethu cymunedau sydd mewn tirwedd anoddach, ac yn galw am dystiolaeth a dadansoddiad mwy diweddar i gefnogi'r tybiaethau.[212] Cododd rhai faterion gan gynnwys a oedd y dadansoddiad yn tanamcangyfrif rôl radio FM, yr angen am gymorth hirdymor mewn ardaloedd gwledig, ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn a chymunedau lleiafrifoedd ethnig

---

[209] Station House Media Unit, t.3; MuxCo, t.2; 10 Radio, t.1; Bauer Media, t.3; Affinity Media NE CIC, t.6.
[210] Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol, t.3.
[211] High Peak One Digital, t.3.
[212] Coast Community Radio a Media CIC, t.4.

a chymunedau ffydd[213] a'r angen i sicrhau mynediad teg at sbectrwm ledled Cymru. Anogodd y rhanddeiliaid hyn Ofcom i fabwysiadu dull mwy hyblyg o ymdrin â darpariaeth wledig er mwyn adlewyrchu'r cyfyngiadau hyn yn well.

A2.35 Derbyniodd Radio Utsav gydnabyddiaeth Ofcom fod gwasanaethau radio cymunedol yn cefnogi cymunedau lleiafrifol ac o fudd iddynt.[214] Fodd bynnag, awgrymwyd y byddai asesiad llawnach o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n "mynd i'r afael yn benodol â chymunedau ieithyddol leiafrifol a wasanaethir gan orsafoedd SSDAB, yn briodol cyn cyhoeddi'r datganiad terfynol."[215]

A2.36 Awgrymodd Better Media fod angen ystyried goblygiadau cyfyngiadau sbectrwm ymhellach hefyd. Lle mae asesiadau fforddiadwyedd, cwestiynwyd oed y data, gan awgrymu bod Ofcom yn dibynnu ar hen systemau, data a thybiaethau ac y dylai wella ei gapasiti ac adnewyddu ei dystiolaeth, yn enwedig er mwyn deall effeithiau lleol a chydraddoldeb.[216]

A2.37 Nododd Affinity Media efallai na fyddai ein hasesiad effaith yn cofnodi amrywiadau rhanbarthol o bosibl.[217]

A2.38 Dywedodd Maxxwave os diffinnir argaeledd sbectrwm FM mewn ffordd ddeuaidd fel rhywbeth sydd naill ai ar gael neu ddim ar gael yna "heb ddatrys problemau ar y cyd, efallai y bydd cymunedau mewn ardaloedd sydd â sbectrwm cyfyngedig (trefol yn aml, amrywiol yn aml) yn methu'n anghymesur â sicrhau trwyddedau. Mae goblygiadau o ran cydraddoldeb yn perthyn i ddyluniad y broses ei hun". [218] Roeddent hefyd wedi awgrymu diweddaru'r dadansoddiad fforddiadwyedd ar gyfer derbynyddion DAB er mwyn "adlewyrchu'r dirwedd costau byw bresennol" yn well.[219]

## Ein hasesiad terfynol

3.210 Fel y nodir yn y Datganiad hwn, rydym wedi ystyried adborth gan randdeiliaid mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Er bod llawer o randdeiliaid yn cytuno'n gyffredinol â'n hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, rydym yn cydnabod bod rhai ohonynt wedi gofyn i Ofcom ystyried effaith ein cynigion ymhellach, yn benodol ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gynnwys cymunedau gwledig a lleiafrifol.

A2.39 Fel y nodwyd uchod, mae radio cymunedol yn darparu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pwysig drwy wasanaethu cymunedau lleiafrifol, sydd wedi'u tangynrychioli, ac sydd ar wasgar yn ddaearyddol. Daeth ein hymchwil yn 2025, Mesur Budd Cymdeithasol Radio Cymunedol, i'r casgliad:

> *"mae gorsafoedd radio cymunedol yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi llais i gymunedau lleol ledled y DU. Maent yn llwyfan pwysig i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan annog hunaniaeth leol, diwylliant ac ymgysylltu cymdeithasol. Mae'r gorsafoedd hyn yn cael eu gyrru'n bennaf gan wirfoddolwyr ac maent yn cynnig cymysgedd unigryw o gynnwys wedi'i gynhyrchu'n lleol sy'n adlewyrchu*

[213] Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU, tt.2-3, t.4,
[214] Radio Utsav, tt.4-5.
[215] Radio Utsav, tt.4-5.
[216] Better Media, t.8.
[217] Affinity Media NE CIC, t.7.
[218]Maxxwave, tt.10-11.
[219] Maxxwave, t.11.

*diddordebau ac anghenion amrywiol eu cymunedau. Yn ogystal â darparu adloniant, mae radio cymunedol yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol, addysg, cyfranogiad dinesig, a datblygu economaidd lleol."*

A2.40 Rydym hefyd yn cydnabod y gall radio analog ddod â manteision i gymunedau lleiafrifol penodol, fel yr henoed, grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a rhai cymunedau gwledig. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein blaenoriaethau terfynol, gan ein bod wedi nodi y byddwn yn ystyried gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio FM cymunedol newydd mewn ardaloedd lle mae darpariaeth DAB yn gyfyngedig a lle nad oes digon o ddewis o wasanaethau analog eraill.

A2.41 Mae defnyddio amlblecsau SSDAB hefyd yn caniatáu i fwy o orsafoedd radio gyrraedd mwy o gymunedau ledled y DU.

A2.42 Felly, rydym o'r farn y bydd ein penderfyniad i ddarparu cyfleoedd trwyddedu radio cymunedol newydd ac ystyried mwy o welliannau i ddarpariaeth wrth symud ymlaen yn fuddiol i'r grwpiau hyn, gan gynnwys grwpiau mewn ardaloedd gwledig a mwy trefol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, ar ôl dadansoddi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, rydym wedi mireinio ein cynigion yn benodol i gynnwys penderfyniad i gyhoeddi galwad am Ddatganiad o Ddiddordeb, ochr yn ochr â'r Datganiad hwn, a fydd yn caniatáu i randdeiliaid ddangos eu diddordeb mewn gwneud cais am drwydded radio cymunedol FM cyn i ni agor rownd trwyddedu sy'n gwahodd ceisiadau. Bydd hyn yn galluogi Ofcom i fesur lefelau'r galw am drwyddedau radio cymunedol FM, manteision i'r gynulleidfa yn sgil blaenoriaethu gwahodd ceisiadau mewn ardaloedd penodol ac yn caniatáu i ni gynllunio ein hadnoddau a'r broses wahodd i sicrhau ein bod yn gallu ateb y galw ochr yn ochr â'n blaenoriaethau eraill a nodir yn y Datganiad. Gan fod rhai ymatebwyr i'n hymgynghoriad wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai fod amgylchiadau o hyd lle gallai gwasanaeth AM ddarparu gwerth i'r cyhoedd a manteision i'r gynulleidfa, rydym hefyd wedi penderfynu ystyried amgylchiadau eithriadol ar gyfer trwydded radio cymunedol AM drwy'r broses Datgan Diddordeb. Y bwriad yw darparu trwyddedau radio analog cymunedol newydd mewn ardaloedd lle gallai ddod â manteision sylweddol (gan gynnwys i gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol). O'r herwydd, rydym yn credu y gallai gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

A2.43 Gwyddom fod gwasanaethau lleol a gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau a ddarperir gan RSLs hefyd yn dod â chymunedau at ei gilydd ar sail profiadau cyffredin. Rydym hefyd wedi ystyried hyn wrth lunio ein safbwynt polisi terfynol.

A2.44 Pryder a fynegwyd gan lawer o ymatebwyr oedd yr effaith bosibl ar gynaliadwyedd SSDAB, ac felly'r sector radio cymunedol ehangach sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig a lleiafrifol, pe baem yn trwyddedu rhagor o amlblecsau DAB lleol fel y cynigir yn ein hymgynghoriad. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, yn ogystal ag ystyriaethau eraill a amlinellir ym mharagraff 3.141, rydym wedi penderfynu na fydd rhagor o drwyddedu amlblecs DAB lleol yn flaenoriaeth i Ofcom ar hyn o bryd, sy'n golygu na fydd unrhyw bosibilrwydd o effaith negyddol ar y grwpiau hyn yn hyn o beth.

Mewn perthynas â'n penderfyniad i alluogi gwelliannau ac estyniadau i ddarpariaeth drwy ddatblygu'r sector SSDAB, rydym o'r farn bod yr effeithiau ar y grwpiau a nodwyd yn debygol o fod yn niwtral.

A2.45 Gallai ein penderfyniad i fod yn fwy hyblyg yn ein dehongliad o'r terfyn uchaf o 40%, a amlinellir uchod ym mharagraff 3.124, ddarparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer gwasanaethau sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol llai, a allai gael effaith gadarnhaol ar gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

A2.46 Awgrymodd nifer o randdeiliaid ein bod yn casglu mwy o dystiolaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau i grwpiau gwledig a grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac ar bynciau fel fforddiadwyedd derbynyddion radio, gwrandawyr radio cymunedol ac ymchwil i'r diffiniad o gymuned. Rydym o'r farn nad oes angen ymchwil ychwanegol ar hyn o bryd er mwyn pennu effaith ein blaenoriaethau tymor byr i ganolig ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r grwpiau eraill a restrir ym mharagraff 4.7 ein canllawiau asesu effaith. Fe wnaethom gynnal ein *Gwaith ymchwil ar fesur budd cymdeithasol* yn ddiweddar fel y cyfeirir ato uchod. Rydym hefyd yn cynnal arolygon blynyddol o wrando ar sain drwy ein Harolygon Sain a Phodlediadau ac adroddiad Cyfryngau'r Genedl, yn ogystal â chael mynediad at ddata gan RAJAR. Rydym yn casglu data am gysylltedd gwledig drwy ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd. Rydym wedi dibynnu ar y data hwn fel y bo'n briodol ac fel y nodir drwy gydol y Datganiad hwn.

A2.47 Felly, i grynhoi, nid ydym yn credu y byddai'r safbwynt polisi terfynol a nodir yn y Datganiad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig nac ar unrhyw grwpiau eraill o bobl, nac y byddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Yn wir, fel yr amlinellir uchod, rydym o'r farn y gallant arwain at effeithiau cadarnhaol a niwtral sylweddol ar gymunedau ac unigolion gan mai eu bwriad yw cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau radio a gwella gallu gwasanaethau o'r fath i wasanaethu ystod ehangach o gynulleidfaoedd

## Y Gymraeg

A2.48 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydnabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisïau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).

A2.49 Lle bo Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar y canlynol: (i) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo greu neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

### Ein safbwynt yn yr ymgynghoriad

A2.50 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, mae gan nifer o wasanaethau radio cymunedol (analog a digidol) ymrwymiadau i ddarlledu cynnwys yn Gymraeg, ac rydym wedi cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â lefelau darpariaeth DAB yng Nghymru, sy'n dal i fod yn is nag yn Lloegr.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

A2.51 Ni chafwyd unrhyw sylwadau a oedd yn ymateb yn uniongyrchol i asesiad effaith Ofcom o ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at bwysigrwydd darlledu yn y Gymraeg gan Coast Community Radio a Media CIC a ddywedodd, "ar draws sawl rhan o Gymru, gan gynnwys Sir Conwy, mae angen gwasanaethu cymunedau Cymraeg eu hiaith, llawer ohonynt yn byw ar gyrion canolfannau poblogaeth mwy neu mewn cadarnleoedd gwledig".[220]

## Ein safbwynt terfynol

A2.52 Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2026, rydym yn cydnabod bod gan nifer o wasanaethau radio cymunedol (analog a digidol) ymrwymiadau i ddarlledu cynnwys yn Gymraeg. Yn wir, fel yr amlinellir ym mharagraff 3.14 yr ymgynghoriad[221], mae lefelau darpariaeth DAB yng Nghymru yn dal yn is nag yn Lloegr, felly gallai ein cynnig i barhau â thrwyddedu radio cymunedol analog helpu i sicrhau mwy o ddarpariaeth. Rydym wedi penderfynu cadarnhau ein cynnig i barhau â thrwyddedu radio cymunedol analog. Gallai hyn helpu i sicrhau mwy o ddarpariaeth Gymraeg, gan arwain at ganlyniad cadarnhaol i gymunedau Cymraeg.

3.211 Y tu hwnt i hyn, nid ydym yn credu bod unrhyw fesurau ychwanegol y gallem eu cymryd a fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid ydym ychwaith o'r farn y byddai ein cynigion yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y Gymraeg, nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[220] Coast Community Radio a Media CIC, t.2.
[221] Ymgynghoriad ar ddull strategol arfaethedig Ofcom o drwyddedu radio darlledu